Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Hunanasesiad 2021/22

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

Cynnwys

1.	Cyflwyniad	3
2.	Ein Dull Hunanasesu ar gyfer 2021-22	4
3.	Crynodeb o'n hunanasesiad 2021-22	6
4.	Asesu yn erbyn ein themâu hunanasesu	7
	Thema: Cynllunio Corfforaethol	9
	Thema: Arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol:	12
	Thema: Rheoli Perfformiad	15
	Thema: Cynllunio Ariannol	18
	Thema: Rheoli Risg	21
	Thema: Cynllunio'r Gweithlu	23
	Thema: Asedau	26
	Thema: Caffael	31
Atodiad 1:	Ffynonellau tystiolaeth allweddol	33
Atodiad 2:	Rhestr Dermau	35

1. Cyflwyniad

Mae hunanasesu yn bwysig i unrhyw sefydliad ac yn ffordd o adolygu'r sefyllfa bresennol, yn feirniadol ac yn onest, er mwyn gwneud penderfyniadau ar sut i sicrhau gwelliant i'r dyfodol. Mae deddfwriaeth newydd yng Nghymru (Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiad (Cymru) 2021) yn ei gwneud yn ofynnol i gynghorau barhau i adolygu eu perfformiad drwy hunanasesiad. Ar ei lefel symlaf mae'n sicrhau ein bod yn gofyn yn flynyddol:

- Pa mor dda ydym yn gwneud?
- Sut ydym yn gwybod hyn?
- Beth allwn ni ei wneud yn well a sut?

Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu ein canfyddiadau o'n hunanasesiad cyntaf ac yn unol â'r ddeddfwriaeth newydd mae'n ystyried a ydym yn:

- arfer ei swyddogaethau'n effeithiol;
- defnyddio ein hadnoddau'n economaidd, effeithlon ac yn effeithiol; ac
- yn defnyddio trefniadau llywodraethu yn effeithiol ar gyfer sicrhau'r uchod.

Mae hefyd yn nodi meysydd i'w datblygu, a bydd cynnydd yn cael ei adrodd yn eu herbyn yn adroddiad 2022-23.

2. Ein Dull Hunanasesu ar gyfer 2021-22

Mae hunanasesu eisoes yn rhan annatod o'n fframwaith rheoli perfformiad sy'n ein helpu i nodi meysydd lle mae angen cymorth ar gyfer gwella fwyaf er mwyn gallu cyflawni yn erbyn ein blaenoriaethau, tra'n parhau i fod yn hyblyg ac arloesol er mwyn ymateb i'r amgylchedd newidiol yr ydym yn gweithredu ynddo.

Mae hunanasesu fel arf gwella wedi'i wreiddio ar draws y cyngor – o hunanasesu ar lefel gwasanaeth unigol, i lefelau trawsbynciol a thematig, megis pan fyddwn yn asesu ein perfformiad yn erbyn Cynllun ein Cyngor neu effeithiolrwydd ein fframwaith llywodraethu.

Wrth ddatblygu ein hymagwedd at y gofyniad Hunanasesu newydd fel y'i diffinnir yn y ddeddfwriaeth, rydym wedi defnyddio Canllawiau Statudol y Ddeddf. O'r herwydd, mae wedi'i strwythuro o amgylch y themâu llywodraethu canlynol:

- **Canlyniadau Perfformiad:** Ymrwymiad y cyngor i'w weledigaeth a chyflawni canlyniadau perfformiad ar draws y cyngor, wrth ystyried y cynnydd a wnaed o ran cyflawni Amcanion Lles a Blaenoriaethau Gwella Cynllun y Cyngor.
- **Cynllunio Corfforaethol:** Gallu'r cyngor i ddiffinio a chynllunio canlyniadau cynaliadwy. Ystyried a yw penderfyniadau a wneir yn cynnwys barn yr holl randdeiliaid, yn hyrwyddo diben yr awdurdod, yn cyfrannu at fuddion a chanlyniadau arfaethedig, ac yn aros o fewn terfynau awdurdod ac adnoddau.
- **Arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol:** Priodoldeb strwythurau a chapasiti arweinyddiaeth y cyngor i alluogi'r cyngor i gyflawni ei fandad ei hun tra'n datblygu sgiliau a phrofiad yr arweinwyr yn barhaus i ymateb i ofynion y dyfodol.
- **Rheoli Perfformiad** Effeithiolrwydd system rheoli perfformiad y cyngor o ran hwyluso proses i sicrhau y cyflawnir y canlyniadau a fwriadwyd drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol.
- **Cynllunio ariannol:** Hyfedredd system rheolaeth ariannol y cyngor o ran tanategu a gosod cyd-destun ar gyfer gwneud penderfyniadau, gweithredu polisïau a chyflawni canlyniadau arfaethedig.
- **Rheoli Risg:** Mae prosesau rheoli risg y cyngor yn rhan annatod o system rheoli perfformiad ac yn ystyried pa mor dda yr eir i'r afael â risg fel rhan o bob penderfyniad.
- **Cynllunio'r Gweithlu:** I ba raddau y mae gan y cyngor systemau ar waith i ddatblygu'r gweithlu i sicrhau bod ganddo'r gallu i ymateb i newid dros amser a bod ganddo'r sgiliau a'r profiad o arwain a'r gweithlu i gyflawni ei swyddogaethau.
- **Asedau:** Effeithiolrwydd rheolaeth asesu'r cyngor i sicrhau darpariaeth gwasanaeth effeithiol a gwerth am arian.
- **Caffael:** Effeithlonrwydd proses gaffael y cyngor o ran bod yn gynaliadwy, cyflawni gwerth am arian a chreu buddion i bobl leol a'r economi leol, tra'n lleihau difrod i'r amgylchedd.

Ategir ein proses asesu gan asesiad yn erbyn yr egwyddorion llywodraethu da a nodir yn 'Sicrhau Llywodraethu Da mewn Llywodraeth Leol' CIPFA/SOLACE a'n fframwaith llywodraethu ein hunain, ac rydym wedi defnyddio'r fframwaith hwn i ddiffinio perfformiad da ym mhob un o'r meysydd hyn. Mae ein proses wedi cynnwys adolygiad o'r dystiolaeth sydd ar gael a sesiynau her gyda'n Uwch Dîm Arwain, swyddogion allweddol a'n haelodau etholedig.

Mae'r Canllawiau Statudol yn nodi y dylai'r adroddiad hunanasesu fod yn hygyrch ac yn gryno, felly mae'n cynnig crynodeb lefel uchel a strategol o'n perfformiad yn erbyn y naw thema. Mae'n nodi'r meysydd hynny y mae'r cyngor yn gwneud cynnydd da ynddynt, yn ogystal â meysydd i'w datblygu ac mae'r rhain wedi'u nodi ym mhob un o'r themâu (adran 4).

3. Crynodeb o'n hunanasesiad 2021-22

Wrth gynnal yr asesiad, rydym wedi barnu ein perfformiad gan ddefnyddio'r sgôr a ganlyn:

GWYRDD: Perfformiad cyson dda gydag ychydig iawn o feysydd i'w datblygu.

MELYN: Perfformiad da gyda chryfderau yn gorbwyso meysydd i'w datblygu.

OREN: Perfformiad boddhaol, ond efallai y bydd angen buddsoddiad a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol.

COCH: Perfformiad gwan a chamau gweithredu i wella yn aneglur.

Mae crynodeb o'n hunanasesiad yn erbyn y naw thema ar gyfer y flwyddyn 2021-22 wedi'i nodi isod.

- **Canlyniadau perfformiad (Oren)**
- **Cynllunio corfforaethol (Gwyrdd)**
- **Diwylliant arweinyddiath a sefydliadol (Melyn)**
- **Rheoli perfformiad (Melyn)**
- **Cynllunio ariannol (Melyn)**
- **Rheoli risg (Melyn)**
- **Cynllunio'r gweithlu (Melyn)**
- **Asedau (Oren)**
- **Caffael (Melyn)**

Mae manylion am sut rydym wedi dod i'r dyfarniadau hyn, ynghyd â'r meysydd yr ydym wedi'u nodi i'w datblygu wedi'u cynnwys yn yr adran nesaf. Mae rhestr o rai o'r ffynonellau tystiolaeth allweddol a ddefnyddiwyd gennym i lunio'r dyfarniadau hyn ar gael yn atodiad 1.

4. Asesu yn erbyn ein themâu hunanasesu

Thema: Canlyniadau Perfformiad

Adlewyrchir ymrwymiad y cyngor i'w weledigaeth a'r Amcanion Lles a'r Blaenoriaethau Gwella yn y cynnydd a wnaed wrth gyflawni'r canlyniadau y cytunwyd arnynt. Dylid cytuno ar gamau gweithredu ac ymyriadau newydd, er mwyn eu haddasu ac ymateb lle nad yw cynnydd ar y trywydd iawn o ran cyflawni canlyniadau ar ei hôl hi neu wedi'i effeithio gan heriau allanol. Amlygir canlyniadau nad ydynt ar y trywydd iawn drwy'r fframwaith rheoli perfformiad. Yng ngoleuni her y pandemig, dylai tystiolaeth o gynnydd a phenderfyniadau mewn perthynas â'r dirwedd ddatblygol fod yn amlwg wrth fynd ar drywydd gweledigaeth y cyngor.

Mae ein hamcanion lles presennol wedi'u nodi yng Nghynllun y Cyngor (2020-23) y cytunwyd arno gan y Cyngor yn 2020, ac a adolygwyd yn 2022. Mae Cynllun y Cyngor hefyd yn dangos sut mae ein hamcanion lles yn helpu i gyflawni Nodau Lles Cymru.

Rydym yn adrodd ar ein perfformiad yn erbyn yr amcanion yn chwarterol i aelodau etholedig, ddwywaith y flwyddyn i'r Bwrdd Gweithredol, ac yn flynyddol i'r cyhoedd trwy ein hadroddiad perfformiad blynyddol. Mae crynodeb isod o'n ffordd yr ydym wedi asesu ein perfformiad yn erbyn yr amcanion hyn o ran cael ein gosod i gyflawni'r amcanion ym mlwyddyn olaf y Cynllun (2022-23). Ceir manylion llawn yn yr adroddiad perfformiad blynyddol diweddaraf.

Mae cyflawniad canlyniadau chwe Blaenoriaeth y Cyngor wedi dangos gwelliant sylweddol ar ddiwedd 2021/22:

- Dwy flaenoriaeth wedi eu hasesu fel gwyrdd (cynnydd ar y trywydd iawn)
- Dwy flaenoriaeth wedi eu hasesu fel melyn (mae ein cynnydd ychydig oddi ar ei hôl hi ar adeg adrodd ond nid ydym yn credu y bydd hyn yn effeithio ar y canlyniad yn y pen draw)
- Dwy flaenoriaeth wedi eu hasesu fel oren (mae ein cynnydd ychydig ar ei hôl hi ar adeg adrodd ac mae risg y bydd hyn yn effeithio ar y canlyniad)
- Dim blaenoriaethau wedi'u hasesu'n goch (nid ydym yn gwneud cynnydd ac mae risg na chyflawnir y canlyniad yn y pen draw)

Yn ei gyfanrwydd, wrth i ni ddechrau blwyddyn olaf ein Cynllun y Cyngor presennol, bernir bod cyflawniad yn erbyn y Cynllun yn Felyn: ychydig oddi ar y trywydd iawn ar adeg yr adroddiad gyda'r farn nad ydym yn credu y bydd hyn yn amharu ar y canlyniad cyffredinol yn yr adroddiad ar ddiwedd 2022/23.

AMCAN LLES / BLAENORIAETH Y CYNGOR	RAYG Rating 2020/21	RAYG Rating 2021/22
Datblygu'r Economi	Oren	Oren
Sicrhau Cyngor Modern a Chryf	Gwyrdd	Gwyrdd
Sicrhau bod Pawb yn Ddiogel	Oren	Oren
Gwella'r Amgylchedd	Oren	Gwyrdd
Gwella Addysg Uwchradd	Oren	Melyn
Hybu Iechyd a Lles Da (gyda phwyslais ar wella Gwasanaethau Plant)	Melyn	Melyn

Mae pedwar maes blaenoriaeth wedi cynnal eu cynnydd a dau wedi gwella. Nid oes unrhyw flaenoriaethau wedi dirywio o ran y tebygolrwydd o gyflawni'r canlyniadau ar ddiwedd Cynllun y Cyngor. Mae 'Datblygu'r Economi' a 'Sicrhau Bod Pawb yn Ddiogel' ill dau wedi'u graddio'n Oren, fodd bynnag effeithiwyd yn sylweddol ar y ddwy flaenoriaeth hyn oherwydd y cyfnodau clo gyda llawer o brosiectau a gweithgareddau wedi'u hatal ac adnoddau wedi'u hailgyfeirio. Effeithiwyd yn arbennig ar dai oherwydd problemau cadwyn gyflenwi ac argaeledd contractwyr. Mae sicrhau Cyngor Modern a Chryf wedi gweld nifer o lwyddiannau gyda'r rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio wedi cyflymu o ganlyniad i'r pandemig.

Ein hasesiad 2021-22 - Oren

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd ein bod yn dangos perfformiad boddhaol, ond efallai y bydd angen buddsoddiad a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol

Cryfderau

- Gwelwyd gwelliannau parhaus mewn meysydd gwella, gyda'r rhai a reoleiddir gan asiantaethau allanol yn gweld gwelliant yn y meysydd allweddol a nodwyd.
- Daeth Cyrff Rheoleiddio Allanol, AGC ac Estyn i'r casgliad bod y ddau Brif Swyddog yn codi uchelgeisiau ac yn gyrru gwelliant tuag at lefel foddhaol.
- Gwelliant a welwyd ym Mlaenoriaethau'r Cyngor yn gyffredinol o 2020/21 i 2021/22.
- Mae amcanion cydraddoldeb yn gyffredinol wedi gweld cynnydd da a chafwyd llwyddiant arbennig mewn cynlluniau sy'n cefnogi pobl diamddiffyn yn y Fwrdeistref Sirol a digwyddiadau i gefnogi cydlyniant cymunedol.

Meysydd i'w datblygu

- Parhau i gyflawni Blaenoriaethau ein Cyngor a gwella cynnydd Blaenoriaethau'r Cyngor a aseswyd yn oren.
- Parhau ein siwrnai o welliannau corfforaethol a gwelliannau i'n gwasanaethau y gwelir tystiolaeth ohonynt mewn blaenoriaethau cysylltiedig â chyrff rheoleiddio allanol:
- Sicrhau canlyniadau digonol/boddhaol gan Estyn (i wella addysg ysgol uwchradd).
- Cynnal a pharhau i wneud gwelliannau er mwyn cyrraedd safon dda o wasanaeth mewn gofal cymdeithasol plant yn unol â disgwyliadau AGC er mwyn sicrhau bod anghenion plant yn cael eu diwallu.
- Parhau â'n taith tuag at welliant yn y meysydd corfforaethol neu wasanaeth hynny gyda chynlluniau gwella y cytunwyd arnynt neu uwch-strwythurau ar waith – Datgarboneiddio (corfforaethol); Cynllunio (gwasanaeth); a Thai (gwasanaeth).

Thema: Cynllunio Corfforaethol

Mae natur ac effaith hirdymor llawer o gyfrifoldebau llywodraeth leol yn golygu y dylai ddiffinio a chynllunio canlyniadau ac y dylai'r rhain fod yn gynaliadwy. Dylai penderfyniadau hybu pwrpas yr awdurdod, cyfrannu at fuddion a chanlyniadau bwriedig, ac aros o fewn terfynau awdurdod ac adnoddau. Mae mewnbwn oddi wrth bob grŵp o randdeiliaid, gan gynnwys dinasyddion, defnyddwyr gwasanaeth a rhanddeiliaid sefydliadol yn hanfodol i lwyddiant y broses hon ac i gydbwyso galwadau sy'n cystadlu wrth bennu blaenoriaethau ar gyfer yr adnoddau cyfyngedig sydd ar gael.

Mae gennym weledigaeth glir, ar gyfer y Fwrdeistref Sirol, sy'n llywio ein huchelgais, ein blaenoriaethau lles a'n prosesau cynllunio corfforaethol

- Rydym yn cyhoeddi Cynllun ein Cyngor sy'n gosod ein hamcanion lles yn glir ac yn nodi sut maent yn cyfrannu at Nodau Lles Cymru. Mae'r Cynllun yn gosod cyd-destun a ffocws yr amcan, yn diffinio sut bydd llwyddiant yn edrych ac yn gosod ein cerrig milltir clir a'n mesurau. Mae'r Cynllun yn cynnwys adran ar ein cyllid sy'n adlewyrchu'n glir yr heriau y mae'r cyngor yn eu hwynebu ac yn helpu i osod y cyd-destun yr ydym yn gweithredu ynddo.
- Rydym yn gweithio'n rhanbarthol ac mewn partneriaeth i sicrhau bod ein cynllunio corfforaethol yn adlewyrchu materion a blaenoriaethau rhanbarthol – er enghraifft Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus, Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru a Chynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy ac fel Cadeirydd y Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol.
- Mae gennym brosesau rheoli perfformiad effeithiol ar waith i ddatblygu a chyflawni ein hamcanion – ategir hyn gan chwe Bwrdd Blaenoriaeth sy'n gyfrifol am herio perfformiad a galluogi cyflawni ein nodau a'n hamcanion.
- Mae gennym ganllawiau cynllunio gwasanaeth cynhwysfawr i gefnogi gwasanaethau yn eu prosesau cynllunio eu hunain.
- Mae ein prosesau Adolygu a Datblygu Personol (PDR) yn sicrhau bod gweithgareddau gwasanaeth yn canolbwyntio ar gyflawni amcanion a gofynion gwasanaeth.
- Rydym yn cynnwys y cyhoedd a'n rhanddeiliaid yn ein cynllunio, ac yn deall yr effaith y bwriedir i'n canlyniadau eu cael arnynt.
- Mae ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol wedi'u gwreiddio yn ein hamcanion lles i sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio arnynt yn y ffordd yr ydym yn darparu ein gwasanaethau.

Rydym yn edrych tua'r hirdymor ac yn cynllunio canlyniadau cynaliadwy o fewn adnoddau ac yn rheoli risgiau i gyflawni ein canlyniadau.

- Mae Cynllun presennol ein Cyngor yn gynllun tair blynedd yr ydym yn ei adolygu ac yn cytuno arno'n flynyddol. Bydd ein Cynllun nesaf yn cael ei ddatblygu gyda'n Cyngor newydd yn 2022 a bydd am gyfnod o bum mlynedd. Mae hyn yn cydnabod natur hirdymor ein hamcanion, ond hefyd yn rhoi'r hyblygrwydd i ni ail-ganolbwyntio yn ôl yr angen – yn adolygiad 2021/22 fe wnaethom ail-ganolbwyntio ein hamcan 'Gwella'r Amgylchedd' i 'Datblygu a Datgarboneiddio

ein Hamgylchedd' i adlewyrchu ein hymrwymiad i fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd.

- Mae penderfyniadau am gyllidebau ac adnoddau yn cyd-fynd â chyflawni blaenoriaethau ac mae ganddynt naratif clir i'n rhanddeiliaid am yr adnoddau sydd ar gael i ni.
- Mae Byrddau Blaenoriaeth yn ystyried risgiau i gyflawni ein hamcanion.
- Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy wedi'i gwreiddio yn ein hymagwedd at gynllunio corfforaethol ac rydym yn cydnabod bod gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau yn gofyn am ddiffiniad ehangach na 'chyllid' – mae angen i ni gydbwyso effaith economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ein polisïau a'n cynlluniau.

Rydym yn gwahodd ac yn hwyluso her a thrafodaeth adeiladol ar flaenoriaethau, canlyniadau a thargedau, gan gynnwys ymgynghori â'r cyhoedd a'n rhanddeiliaid.

- Adolygir ein hamcanion lles yn flynyddol i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn realistig ac yn gyraeddadwy – mae hyn yn cynnwys sesiynau herio targedau gyda'r Byrddau Blaenoriaeth ac aelodau etholedig. Mae ein chwe Bwrdd Blaenoriaeth yn darparu her bob chwarter gan sicrhau bod ymyriadau'n cael eu nodi a chyfleoedd yn cael eu huchafu, a bod gwybodaeth perfformiad ar gael i aelodau etholedig bob chwarter.
- Mae gennym Strategaeth Gyfranogi glir, lefel uchel ar waith sy'n pwysleisio pwysigrwydd cydweithio â'n trigolion, rhanddeiliaid a phartneriaid drwy ymgysylltu, ymgynghori a chydgynhyrchu. Bydd ein Strategaeth yn cael ei hadolygu yn 2022-23.
- Rydym yn defnyddio gwybodaeth o'n gweithgareddau cyfranogi ni a'n partneriaid, yn ogystal ag ymgynghori'n benodol ar ein hamcanion arfaethedig. Rydym yn gweithio'n rhanbarthol drwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus i wella'r cydgysylltu a'r defnydd o weithgareddau cyfranogi ar draws Gogledd Cymru a bydd Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam a gwblhawyd yn 2021-22 yn ffynhonnell allweddol o dystiolaeth y byddwn yn ei defnyddio i lywio datblygiad ein Cynllun Cyngor nesaf a chynllunio ein gwasanaethau yn ehangach.
- Mae ein gweithgareddau cyfranogi gyda'r cyhoedd yn dychwelyd i lefelau cyn-Covid ac mae ein rhaglen 'Ffyrdd Modern o Weithio', a gyflymodd yn ystod y pandemig, wedi ehangu'r cyfleoedd ar gyfer mynediad o bell at weithgareddau cyfranogi. Wrth symud ymlaen rydym yn cydnabod yr angen i wella'r gwaith o gydgysylltu ein gweithgareddau cyfranogi ar draws y cyngor.
- Mae ein hamcanion Cydraddoldeb Strategol yn cynnwys ffocws ar wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol a sicrhau bod grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol yn gallu chwarae rhan lawn wrth gefnogi a chynrychioli lleisiau eu cymunedau.

Ein hasesiad 2021-22 - Gwyrdd

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd gallwn ddangos perfformiad cyson dda gydag ychydig iawn o feysydd i'w datblygu.

Cryfderau

- Mae ein gweledigaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol yn darparu ffocws clir ar gyfer ein hamcanion lles a'n gwasanaethau.
- Rydym yn weithgar ar lefel ranbarthol mewn cyrff partneriaeth allweddol ac mae ein cynllunio corfforaethol yn adlewyrchu materion a blaenoriaethau rhanbarthol.
- Mae gennym brosesau cynllunio corfforaethol cadarn ar waith, sy'n rhai hirdymor, ond sy'n hyblyg i'n galluogi i fod yn ymatebol.
- Rydym yn defnyddio gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau i lywio ein cynllunio corfforaethol a chynnwys ein rhanddeiliaid.
- Mae gennym brosesau rheoli perfformiad a risg effeithiol ar waith.

Meysydd i'w datblygu

- Galluogi gwydnwch sefydliadol a chymunedol.
- Gwella'r gwaith o gydgysylltu a gwerthuso gweithgarwch cyfranogi er mwyn sicrhau bod y cyhoedd a rhanddeiliaid yn cael eu cynnwys yn effeithiol yn ein cynlluniau corfforaethol a gwasanaethau.
- Gwella'r wybodaeth a'r dystiolaeth sydd ar gael i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn ei gwneud yn glir sut y bydd penderfyniadau'n cyfrannu at y buddion a'r canlyniadau a fwriedir, gan gynnwys goblygiadau pob penderfyniad o ran hinsawdd a charbon.

Thema: Arweinyddiaeth a diwylliant sefydliadol:

Mae angen strwythurau ac arweiniad priodol ar lywodraeth leol. Dylai'r cyngor sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei fandad ei hun ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolwyr y gallu gweithredol ar gyfer y sefydliad cyfan. Gan y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, dylai'r cyngor ddatblygu ei allu yn ogystal â'r sgiliau a'r profiad o arwain gweithwyr unigol yn barhaus. Mae arweinyddiaeth mewn endidau llywodraeth leol yn cael ei chryfhau gan gyfranogiad pobl o lawer o wahanol fathau o gefndiroedd, gan adlewyrchu'r strwythur ac amrywiaeth.

Rydym yn arweinydd cymunedol cryf – ar lefel leol a rhanbarthol. Roedd adferiad o effaith pandemig Covid-19 wedi elwa ar ein hymgysylltiad rhagweithiol ar lefel ranbarthol a lleol, a dangosodd ein prosesau cynllunio a gwneud penderfyniadau arweinyddiaeth gyfunol gref a chyson.

Rydym wedi cynnal ein ffocws ar ein taith wella corfforaethol a gwasanaeth – gan gynnwys datblygu cynlluniau gwella, ailstrwythuro uwch reolwyr a chomisiynu adolygiadau annibynnol. Mae yna ddull uchelgeisiol o sicrhau y manteisir i'r eithaf ar gyfleoedd economaidd heddiw ac yn y dyfodol, gyda ffocws ar wydnwch cymunedol.

Rydym wedi sicrhau bod gennym strwythurau ac arweinyddiaeth briodol ar waith i weithredu'n effeithlon a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd ac mae perthnasoedd effeithiol rhwng uwch arweinwyr ac Aelodau Arweiniol.

- Cynllunio olyniaeth ar gyfer yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) – tîm arwain medrus i'w roi ar waith yn llawn yn 2022. Wedi'i strwythuro i fwrw ymlaen â Chynllun y Cyngor a meysydd blaenoriaeth.
- Uwch arweinwyr ac aelodau etholedig, yr UDA ac Aelodau Arweiniol yn gweithio'n agos i gytuno ar gyfeiriad – disgwyliadau o berthnasoedd gwaith parchus wedi'u nodi mewn egwyddorion a chylch gorchwyl clir.
- Protocol Swyddogion / Aelod Etholedig, sy'n annog perthnasoedd effeithiol ac arwain gydag uniondeb, wedi'i adolygu ac yn ei le a'i gefnogi gan rôl y Swyddog Monitro.

Mae ein prosesau gwneud penderfyniadau yn glir ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu galluoedd aelodau etholedig ac uwch reolwyr i gyflawni arweinyddiaeth effeithiol.

- Mae Cyfansoddiad y cyngor yn nodi prosesau gwneud penderfyniadau'r cyngor. Cyhoeddir rhaglen waith i'r dyfodol o benderfyniadau sydd i ddod ar y wefan.
- Mae cydnabyddiaeth o bwysigrwydd sicrhau bod y Cyngor newydd (ar ôl etholiadau llywodraeth leol a drefnwyd ar gyfer Mai 2022) yn cael negeseuon clir o ran gwerthoedd ac ymddygiad a diwylliant gweithio cadarnhaol ac effeithiol rhwng swyddogion ac aelodau etholedig. Gwaith â ffocws wedi'i wneud i sicrhau rhaglen sefydlu gynhwysfawr ar gyfer aelodau etholedig newydd a rhai sy'n dychwelyd.

- Mae Strategaeth Datblygu Aelodau yn hyrwyddo dealltwriaeth glir a rennir o rolau aelodau etholedig ac yn darparu ar gyfer rhaglen sgiliau a gwybodaeth barhaus o gyfleoedd datblygu i bob aelod. Mae hyfforddiant craidd yn cynnwys moeseg a safonau, cadw at reolau'r gyfraith.
- Cwblhaodd Pwyllgor Safonau'r Cyngor adolygiad cynhwysfawr o'r fframwaith safonau a gyflwynwyd i'r Cyngor.
- Datblygu'r Gweithlu yn darparu cymorth a datblygiad i sicrhau bod gan arweinwyr y sgiliau cywir i roi newid ar waith a chyflawni canlyniadau – gan gynnwys darparu Academi Arweinyddiaeth ar gyfer uwch arweinwyr a ffocws mewn meysydd allweddol e.e. Rhaglen Datblygu Arweinyddiaeth Gofal Cymdeithasol.
- Cydnabyddiaeth rheolyddion allanol o arweinyddiaeth well mewn meysydd gwasanaeth y nodwyd bod angen eu gwella – Estyn / AGC
- Canolbwyntio ar ddatblygu diwylliant rheoli hyfforddi i sicrhau bod galluoedd yn cael eu datblygu i gefnogi cynllunio olyniaeth.

Mae ein harweinyddiaeth wedi ymrwymo i ddiwylliant agored, mae ganddi ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a chyflawni canlyniadau gwell.

- Polisïau, cyflwyniad a hyfforddiant cadarn ynghylch disgwyliadau a chodau ymddygiad ar gyfer gweithwyr ac aelodau etholedig. Mae prosesau Adolygu a Datblygu Perfformiad Gweithwyr (PDR) yn rhoi cyfle i ddisgwyliadau diwylliannol y cyngor gael eu cyfathrebu â'r gweithlu yn unigol trwy ei gymwyseddau ymddygiadol, yn ogystal â dangos sut mae unigolyn yn cyfrannu at gyflawni blaenoriaethau'r cyngor.
- Mae gennym Strategaeth Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu ar waith i'n cefnogi i ddatblygu diwylliant lle mae gweithwyr ac aelodau etholedig yn teimlo'n rhan, yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso a bod ganddynt y sgiliau cywir i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau effeithlon.
- Hyfforddiant gorfodol i bob gweithiwr ar feysydd allweddol o ddeddfwriaeth (fel cydraddoldeb ac amrywiaeth, Safonau'r Gymraeg, ac ati). Mae tystiolaeth yn dangos bod y rhan fwyaf o PDRs yn cael eu cwblhau o fewn yr amserlenni disgwyliedig.
- Mae ein harweinyddiaeth wedi ymrwymo i fod yn agored ac adborth adeiladol. Mae'r arolwg cyflogeion diweddaraf yn 2020 yn dangos ymateb cadarnhaol cyffredinol i uwch arweinyddiaeth: mae'n dangos tuedd o wella o ran ymgysylltiad cyffredinol cyflogeion â'r arolwg a gwelliant parhaus mewn perthynas â barn y gweithlu bod gan y Cyngor ymdeimlad clir o gyfeiriad, a bod uwch reolwyr â diddordeb mewn gwrando ar weithwyr ac yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am faterion allweddol.
- Gweithiwn mewn partneriaeth â'r Undebau Llafur, gan gyfarfod yn fisol, gan rannu, trafod ac ymgynghori'n rheolaidd ar ein polisïau a'n harferion gweithlu.

Ein hasesiad 2021-22 - Melyn

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd gallwn ddangos perfformiad da ac mae ein cryfderau'n gorbwyso ein meysydd i'w datblygu.

Cryfderau

- Uwch Dîm Arwain cryf, sefydlog a medrus sydd wedi ymrwymo i wella canlyniadau.
- Gwell arweinyddiaeth a chyfeiriad gan Brif Swyddogion a Phenaethiaid Gwasanaeth newydd mewn meysydd gwasanaeth y mae angen eu gwella, fel y gwelir mewn adroddiadau rheoleiddwyr allanol.
- Mae ymddygiadau a gwerthoedd disgwyliedig yn cael eu harwain gan yr Uwch Dîm Arwain ac yn cael eu cyfathrebu drwy'r broses PDR.
- Mae'r cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu Cyngor newydd effeithiol ac mae hyn yn amlwg wrth gynllunio ar gyfer y cyfnod ôl-etholiad, gyda ffocws ar aelodau newydd ac aelodau sy'n dychwelyd.
- Gwella arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol o dimau yn barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio i ganolbwyntio ar flaenoriaethau.
- Ymrwymiad i ddatblygu galluoedd Aelodau ac Uwch Reolwyr i gyflawni arweinyddiaeth effeithiol.

Meysydd i'w datblygu

- Meithrin diwylliant cefnogol a pharchus.
- Sicrhau eglurder o ran rolau a chyfrifoldebau (aelodau etholedig a swyddogion).
- Sicrhau bod yr holl aelodau etholedig yn cael eu cefnogi i ddatblygu sgiliau a gwybodaeth i'w cefnogi yn eu rolau.
- Cwrdd â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) i sicrhau Cyngor newydd effeithiol.
- Parhau i ddatblygu galluoedd uwch reolwyr i gyflawni arweinyddiaeth effeithiol.
- Rheoli gofynion a chapasiti ar draws gwasanaethau a sicrhau bod gan arweinwyr y gallu i arwain.
- Datblygu trefniadau cynllunio'r gweithlu ymhellach i sicrhau bod y gallu i arwain yn cefnogi blaenoriaethau'r cyngor.

Thema: Rheoli Perfformiad

Mae'r system rheoli perfformiad yn hwyluso proses i sicrhau bod llywodraeth leol yn cyflawni ei chanlyniadau bwriedig drwy ddarparu cymysgedd o ymyriadau cyfreithiol, rheoleiddiol ac ymarferol. Mae angen i lywodraeth leol sicrhau bod y sefydliadau a'r strwythurau llywodraethu y mae'n eu goruchwylio wedi gweithredu, ac yn gallu cynnal, system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso darpariaeth effeithiol ac effeithlon o wasanaethau a gynlluniwyd. Mae angen adolygu penderfyniadau a wneir yn barhaus er mwyn sicrhau bod y canlyniadau'n cael eu cyflawni i'r eithaf.

Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad, ynghyd â system gref o reolaeth ariannol. Mae hefyd yn hanfodol fod gan y Cyngor ddiwylliant a strwythur craffu mewn lle fel rhan allweddol o drefniadau gwneud penderfyniadau atebol.

Mae gennym strwythurau llywodraethu effeithiol ar waith i gynnal perfformiad effeithiol.

- Mae Archwilio Cymru wedi cadarnhau bod gan y cyngor drefniadau clir ar waith i gefnogi gwelliant a bod camau gweithredu i fynd i'r afael ag argymhellion sy'n deillio o adolygiadau 2021 o gynaliadwyedd ariannol a rheoli perfformiad naill ai wedi'u cwblhau neu ar y gweill.
- Adolygwyd ac adnewyddwyd ein trefniadau a chanllawiau rheoli perfformiad yn 2020-21 a pharhaodd y gwelliannau hyn yn ein trefniadau rheoli perfformiad i gael eu gwreiddio yn 2021-22.
- Mae Byrddau Blaenoriaeth (gan gynnwys dau Brif Swyddog, dau Aelod Arweiniol, a swyddogion allweddol) yn eu lle i sicrhau bod pob un o'r amcanion lles yn cael eu cyflawni ac maent yn atebol i'r Uwch Dîm Arwain, Aelodau Arweiniol, y Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor.
- Mae ein hadroddiad perfformiad blynyddol ar gyfer 2021-22 yn dod i'r casgliad y bernir bod cyflawniad yn erbyn Cynllun y Cyngor yn felyn, ychydig oddi ar y trywydd iawn ar adeg llunio'r adroddiad gyda'r farn nad ydym yn credu y bydd hyn yn amharu ar y canlyniad cyffredinol ar ddiwedd 2022/23.
- Adolygwyd Cylch Gorchwyl y Byrddau Blaenoriaeth yn 2021-22 i sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â meysydd i'w gwella a amlygwyd gan archwilio mewnol a rheoleiddio allanol, gan gynnwys ystyried risg.
- Mae cardiau sgorio perfformiad yn cynnwys cerdyn 'ymyriadau' sy'n sicrhau bod angen cymryd camau unioni i fynd i'r afael ag unrhyw danberfformiad. Mae hyn yn darparu cyswllt clir rhwng y dangosyddion perfformiad a chamau gweithredu ac yn cefnogi Byrddau Blaenoriaeth i ganolbwyntio ar wella perfformiad cynaliadwy.
- Rydym yn cydnabod yr angen i gysylltu gwybodaeth perfformiad a gwybodaeth ariannol yn fwy effeithiol – mae canllawiau wedi'u diweddaru yn mynnu bod goblygiadau ariannol unrhyw danberfformiad neu ymyriadau gofynnol yn cael eu cofnodi ar gardiau ymyrraeth.
- Rydym wedi gwella llywodraethu ein trefniadau rheoli prosiect, ac mae prosiectau sy'n cyd-fynd â gwaith y Byrddau Blaenoriaeth wedi'u cynnwys fel eitemau agenda safonol.

Rydym yn adrodd ar ein cynnydd o ran cyflawni'r amcanion hyn.

- Mae Byrddau Blaenoriaeth yn cyfarfod bob chwarter i adolygu cynnydd yn erbyn yr amcanion lles. Cyflwynwyd adroddiadau chwarterol i aelodau etholedig yn 2021-22, gydag adroddiadau bob 6 mis i'r Bwrdd Gweithredol ac adroddiadau blynyddol i'r Cyngor.
- Mae uwch reolwyr, Aelodau Arweiniol a chraffu yn cyflawni swyddogaeth herio werthfawr. Mae Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Craffu yn adolygu adroddiadau perfformiad yn eu cyfarfodydd grŵp cydgysylltiol i lywio eu rhaglenni gwaith, ac mae prosesau ar waith i aelodau etholedig gyfeirio pryderon perfformiad ar gyfer eu craffu.
- Mae gwaith yn mynd rhagddo i gaffael system rheoli perfformiad a risg corfforaethol newydd yn 2022-23, a fydd yn gwella ein gallu i ddadansoddi ac adrodd ar gyflawni ein blaenoriaethau a phennu ymyriadau angenrheidiol.

Rydym yn defnyddio dull 'edau aur' o reoli perfformiad ac adolygu ymyriadau ar bob lefel pan nad yw'r cynnydd ar y trywydd iawn.

- Mae ein pecyn cymorth fframwaith rheoli perfformiad yn cefnogi dull cynllunio gwasanaeth cyson. Mae pecyn cymorth y fframwaith rheoli perfformiad yn rhoi arweiniad cynhwysfawr i bob gwasanaeth ar gynllunio ar gyfer gwella gwasanaethau, monitro perfformiad parhaus a'r broses adolygu a hunanasesu.
- Mae ein Tîm Perfformiad, Gwella a Phartneriaethau yn cefnogi ein gwasanaethau i wreiddio'r dulliau hyn.
- Defnyddir ein blaenoriaethau lles a chanlyniadau ein cynllun gwasanaeth i fframio amcanion Adolygu Perfformiad a Datblygu ar gyfer ein gweithlu.
- Mae ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol yn nodi bod llai o wybodaeth gymharol am berfformiad ar gael yn dilyn Covid-19 a bod Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus Llywodraeth Cymru wedi dod i ben – ac yn cydnabod yr angen i sicrhau ein bod yn parhau i ddefnyddio'r wybodaeth gymharol sydd ar gael am berfformiad i ddeall ein perfformiad a sicrhau gwerth am arian.

Ein hasesiad 2021-22 - Melyn

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd gallwn ddangos perfformiad da ac mae ein cryfderau'n gorbwyso ein meysydd i'w datblygu.

Cryfderau

- Gwelliannau parhaus wedi'u gweld ar draws y Cyngor mewn trefniadau rheoli perfformiad gan gynnwys ar lefel gorfforaethol a lefel gwasanaeth.
- Mae'r cyngor wedi cynnal ei ffocws ar ei daith gorfforaethol a gwella gwasanaethau, gan gynnwys datblygu cynlluniau gwella, ailstrwythuro uwch reolwyr a chomisiynu adolygiadau annibynnol.
- Roedd yr amgylchedd rheolaeth fewnol ar gyfer perfformiad yn gweithredu fel y cynlluniwyd yn ystod y flwyddyn. Mae'r cyngor yn parhau i fod yn dryloyw yn ei adroddiadau trwy gydol y flwyddyn ac o fewn amserlenni.
- Mae argymhellion Archwilio Cymru sy'n deillio o adolygiadau rheoli perfformiad 2021 yn cael eu rhoi ar waith.
- Cydnabod yr angen i awtomeiddio systemau perfformiad, gan gychwyn ar gamau cychwynnol caffael system gorfforaethol a rheoli risg newydd.

Meysydd i'w datblygu

- Parhau â'r gwelliant a welwyd mewn arfer da hyd yn hyn, gan gysylltu'r holl gynlluniau â'i gilydd gan gynnwys cynlluniau tîm a PDRs a sicrhau bod hyn yn cael ei gymhwyso'n gyson ar draws yr holl wasanaethau, adrannau a thimau.
- Caffael a gweithredu System Rheoli Perfformiad a Risg newydd i wella trefniadau casglu a chofnodi data i wella eu heffeithiolrwydd, lleihau'r risg o gamgymeriadau data a gwella hygyrchedd gwybodaeth.
- Sicrhau bod ein blaenoriaethau newydd yng Nghynllun y Cyngor yn cael eu rheoli o ran perfformiad gan ddefnyddio dangosyddion sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau a'n bod yn parhau i ddefnyddio gwybodaeth gymharol am berfformiad i nodi ac ysgogi gwelliant a sicrhau gwerth am arian.

Thema: Cynllunio Ariannol

Mae system gref o reolaeth ariannol yn hanfodol ar gyfer gweithredu polisïau a chyflawni'r canlyniadau a fwriadwyd, gan y bydd yn gorfodi disgyblaeth ariannol, dyrannu adnoddau'n strategol, darparu gwasanaethau'n effeithlon, ac atebolrwydd.

Rydym yn edrych am yr hirdymor ac yn sicrhau bod ein strategaethau ariannol tymor canolig, cyn belled ag y bo modd, yn gosod y cyd-destun ar gyfer penderfyniadau parhaus ar faterion cyflawni sylweddol a newidiadau yn yr amgylchedd allanol.

- Rydym yn canolbwyntio ar fodloni gofynion y dyfodol ac adeiladu cynaliadwyedd, trwy weithio i nodi tueddiadau, risgiau a chyfleoedd yn y dyfodol, fodd bynnag mae fframweithiau ariannu Llywodraeth Cymru ac effaith ffactorau allanol nas rhagwelwyd (e.e. Covid-19, argyfwng Wcráin a chynnydd mewn costau byw) yn gwneud cynllunio hirdymor yn anodd.
- Mae ein cynllun ariannol tymor canolig presennol am 3 blynedd (2022-25) ac mae'n cynnwys ffigurau dangosol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cyllid 2023-24 a 2024-25.
- Mae Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) y cyngor a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 23 Chwefror 2022 yn dangos sefyllfa gytbwys ar gyfer 2022/23 ond yn amlygu diffyg refeniw posibl o tua £4m erbyn 2024/25. Fodd bynnag, mae'r diffyg amcangyfrifedig hwn wedi cynyddu'n sylweddol ers hynny. Ar 31 Mawrth 2021, roedd gan y Cyngor £41.9m o gronfeydd ariannol defnyddiadwy wrth gefn. Mae hyn yn cyfateb i 16.2% o wariant blynyddol y Cyngor ar wasanaethau, 17eg allan o'r 22 cyngor unedol yng Nghymru.
- Rydym eisoes yn gwneud gwaith rhagweithiol i ragweld ac atal pwysau yn y dyfodol ac mae angen parhau i ddatblygu ein trefniadau yn y maes hwn o waith, e.e. gofal cymdeithasol, rhaglenni buddsoddi ataliol mewn priffyrdd ac atgyweirio.
- Rydym yn gweithio ar y cyd ar lefel ranbarthol i sicrhau adnabyddiaeth gynnar o ffactorau rhanbarthol.
- Mae risg ariannol wedi'i ymgorffori ym mhob asesiad risg.
- Rydym yn cydnabod bod angen i ni reoli pwysau ar wasanaethau yn effeithiol er mwyn sicrhau cydnerthedd ariannol a chynaliadwyedd hirdymor
- Mae'r cynllun ariannol tymor canolig yn cynnwys asesiad o bwysau allweddol ar draws y cyngor i sicrhau aliniad agosach rhwng gweithgarwch a chyllid, yn ogystal â'r potensial i fuddsoddi ym mlaenoriaethau'r cyngor wrth symud ymlaen. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae'r cyngor wedi gweld cynnydd sylweddol yn y galw a chost ei ddarpariaeth gofal cymdeithasol i blant, yn ogystal â chynnydd cyffredinol yn y ddarpariaeth gofal cymdeithasol i oedolion. Cydnabyddir hyn yn y cynllun ariannol tymor canolig – mae cyllideb 2022/23 yn cynnwys cyllid ychwanegol sylweddol ar gyfer gofal cymdeithasol fel rhan o strategaeth tymor hwy i sicrhau y gellir bodloni'r galw o fewn sefyllfa ariannol gynaliadwy ar gyfer y cyngor ehangach – ond mae'n risg ariannol parhaus.

- Rydym yn adolygu pwysau cyllidebol a nodwyd trwy brosesau monitro cyllideb.
- Rydym yn cydnabod yr angen i 'ddiogelu at y dyfodol' ac mae tanwariant yn cael ei neilltuo wrth gefn ar gyfer lliniaru cyllideb yn y dyfodol.

Mae gennym drefniadau rheoli ariannol ac adrodd cadarn.

- Cynhaliwyd adolygiad o'n cydymffurfiad â'r Cod Rheolaeth Ariannol (FM) (sy'n ceisio gwella cydnerthedd ariannol sefydliadau trwy sefydlu safonau uwch o reolaeth ariannol) yn 2021 gydag asesiad cyffredinol i ddangos bod cydymffurfiaeth yn dda. Bydd cydymffurfiaeth lawn wedi'i chwblhau erbyn dechrau 2022-23.
- Rydym yn cynnal adolygiad o'n system ariannol graidd a phrosesau cysylltiedig dros y ddwy flynedd nesaf ac rydym wedi cydnabod yr angen i adolygu ein trefniadau a strwythurau cymorth tîm ariannol i gefnogi'r gwaith hwn a sicrhau'r lefel angenrheidiol o adnoddau i feysydd gwasanaeth blaenoriaeth.
- Rydym yn adrodd yn ôl yr angen i'r Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau craffu, y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a'r Uwch Dîm Arwain. Bydd dull gwell o fonitro'r gyllideb ar gyfer y Bwrdd Gweithredol (yn chwarterol) yn cael ei gyflwyno ar gyfer 2022-23. Bydd hyn hefyd yn gwella'r potensial i gysylltu gwybodaeth am y gyllideb ag adroddiadau perfformiad.

Mae gennym broses gyllidebol gynhwysol sy'n sicrhau bod cyllidebau'n cael eu paratoi yn unol â'r canlyniadau a fwriedir.

- Rydym yn cynnwys ein rhanddeiliaid a'r cyhoedd yn ein penderfyniadau gosod cyllideb a blaenoriaethau Cynllun y Cyngor y mae'r gyllideb yn cyd-fynd â nhw. Weithiau mae amseriad setliadau Llywodraeth Cymru yn atal neu'n rhwystro ein gallu i wneud hyn mewn ffordd ystyrlon.
- Nid yw Cynllun y Cyngor wedi'i gostio ond mae blaenoriaethau ariannol, ymrwymiadau a phwysau yn gysylltiedig â blaenoriaethau ac yn bwydo i mewn i gynigion mewn perthynas â phwysau cyllidebol ac i bennu cyllidebau terfynol.
- Adolygir y cronfeydd wrth gefn yn flynyddol fel rhan o broses y gyllideb, a chynhelir gweithdai ychwanegol gydag aelodau etholedig yn ystod y flwyddyn. Cynhwysir cronfeydd wrth gefn a balansau mewn adroddiadau monitro cyllideb i'r Bwrdd Gweithredol a'r Cyngor.
- Bydd dull gwell o fonitro'r gyllideb ar gyfer y Bwrdd Gweithredol (yn chwarterol) yn cael ei gyflwyno ar gyfer 2022-23. Bydd hyn hefyd yn gwella'r gallu i gysylltu gwybodaeth am y gyllideb ag adroddiadau perfformiad.

Ein hasesiad 2021-22 - Melyn

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd gallwn ddangos perfformiad da ac mae ein cryfderau'n gorbwyso ein meysydd i'w datblygu.

Cryfderau

- Mae fframwaith llywodraethu ariannol cadarn bob amser wedi bod ar waith.
- Rydym yn dda am reoli ein sefyllfa gyllidebol gyffredinol ac rydym wedi gwneud gwelliannau sylweddol i'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig i ddyrannu'r adnoddau cywir i wasanaethau.
- Llwyddwyd i reoli'r broses o drosglwyddo staff newydd i swyddi rheoli uwch y llynedd ar draws sawl swyddogaeth.
- Perthynas waith gref gyda chyrff ac adrannau allanol.
- Perthynas dda ag aelodau.

Meysydd i'w datblygu

- Sicrhau bod y cyngor yn ariannol wydn ac yn ddynamig wrth gwrdd â risgiau ariannol ôl-Covid a gwella adrodd ar y gyllideb i aelodau etholedig.
- Sicrhau bod ein prosesau ac adnoddau ein tîm cyllid yn cael eu hintegreiddio ar bob lefel o gynllunio ariannol a chefnogi rheolaeth ariannol dda.
- Parhau i sicrhau ein bod yn gynaliadwy mewn meysydd allweddol megis gofal cymdeithasol.

Thema: Rheoli Risg

Mae rheoli risg a rheolaeth fewnol yn rhannau pwysig ac annatod o system rheoli perfformiad ac yn hanfodol i gyflawni canlyniadau. Dylid ystyried risgiau a mynd i'r afael â nhw fel rhan o weithgareddau gwneud penderfyniadau.

Rydym yn gwerthuso ac yn monitro rheoli risg a'n trefniadau rheoli risg yn rheolaidd ac yn adrodd ar y rhain yn rheolaidd.

- Mae ein trefniadau rheoli risg yn cael eu hadolygu'n ffurfiol bob 5 mlynedd (cytunwyd ar y Polisi Rheoli Risg cyfredol (2020-25) ynghyd â chyngor a chanllawiau rheoli risg wedi'u diweddaru ac amserlenni adrodd yn 2020. Cynhelir adolygiad blynyddol a pharhaus drwy'r gwaith adolygu llywodraethu parhaus sy'n llywio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol, a chan y Pennaeth Archwilio Mewnol drwy'r Farn Flynyddol.
- Mae'r adolygiad llywodraethu yn cadarnhau bod ein trefniadau rheoli risg wedi'u gweithredu fel y bwriadwyd yn ystod y flwyddyn a rhoddodd Barn y Pennaeth Archwilio Mewnol ar gyfer 2021-22 sicrwydd bod fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y cyngor yn gyffredinol ddigonol ac effeithiol yn y meysydd a archwiliwyd wrth gyflawni amcanion y cyngor.
- Yn 2021-22, gwiriwyd yr holl bolisïau a strategaethau a nodwyd fel mesurau lliniaru ar gyfer risgiau corfforaethol neu a restrir yn y fframwaith llywodraethu i sicrhau eu bod yn gyfredol, a / neu y byddai adolygiadau'n cael eu cynnal o fewn amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Rydym yn adrodd yn gynhwysfawr ar ein risgiau – mae cofrestrau risg yn cael eu diweddaru'n chwarterol a'u hadrodd i'r Uwch Dîm Arwain, Aelodau Arweiniol a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ddwywaith y flwyddyn.
- Ymgymerir ag adroddiadau ychwanegol mewn perthynas â meysydd risg a nodwyd yn ystod y flwyddyn hefyd: Adroddir ar y Fframwaith Llywodraethu Iechyd a Diogelwch i'r Uwch Dîm Arwain ac Aelodau Arweiniol, adroddir ar iechyd a diogelwch fel risg corfforaethol i'r Uwch Dîm Arwain, Aelodau Arweiniol a Llywodraethu a'r Pwyllgor Archwilio ddwywaith, a cheir adroddiadau ychwanegol i'r Bwrdd Gweithredol yn ôl yr angen.
- Gwell diwylliant o gwmpas iechyd a diogelwch, a amlygir gan ymwybyddiaeth gynyddol o adroddiadau am 'achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd' (fel y gwelir yn ein harolwg gweithwyr) a mwy o adrodd.

Mae gennym system rheoli risg gadarn ac integredig, sy'n cynnwys atebolrwydd clir am risgiau

- Prif Swyddogion sy'n gyfrifol am reoli risgiau eu maes gwasanaeth; neilltuir Prif Swyddog cyfrifol i bob risg corfforaethol. Mae ein prosesau yn gofyn am drafod risgiau gyda swyddogion priodol ac o fewn timau rheoli adrannol.
- Rydym yn cynnal her adolygiad cymheiriaid blynyddol Prif Swyddogion o'n cofrestrau risg.
- Mae ein prosesau'n gadarn, ond rydym yn cydnabod y cyfle i wneud y gwaith o reoli ac adrodd

ar risgiau yn fwy effeithlon ac rydym wedi nodi'r angen i gaffael system rheoli perfformiad a risg integredig.

Rydym yn ystyried ac yn mynd i'r afael â risg fel rhan o'n holl weithgareddau gwneud penderfyniadau ac rydym yn sicrhau bod risgiau o ran cyflawni ein blaenoriaethau yn cael eu nodi.

- Mae risg wedi'i wreiddio yn y broses gwneud penderfyniadau trwy gynnwys paragraff safonol yn ein templedi adroddiadau.
- Mae nodi a rheoli risg wedi'i wreiddio yn y broses rheoli prosiect a'r broses cymeradwyo partneriaeth ac mae wedi'i gynnwys yn y prosesau adrodd sefydledig sy'n cefnogi'r rhain.
- Mae ein hasesiadau o'r effaith ar gydraddoldeb yn nodi ac yn asesu risgiau posibl o anghydraddoldeb sy'n deillio o'n penderfyniadau ac yn gofyn am fesurau lliniaru – fodd bynnag, mae lle i wneud gwell cysylltiadau rhwng y risgiau a nodir drwy'r broses effaith ar gydraddoldeb a'n trefniadau rheoli risg ehangach.
- Yn 2021-22 fe wnaethom gyflwyno cofrestrau risg ar gyfer pob blaenoriaeth cyngor, sef y risgiau hynny o fewn cofrestrau risg adrannol sy'n ymwneud â chyflawni blaenoriaethau'r cyngor, i alluogi'r rhain i gael eu hadolygu a'u rheoli.

Ein hasesiad 2021-22 - Melyn

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd gallwn ddangos perfformiad da ac mae ein cryfderau'n gorbwyso ein meysydd i'w datblygu.

Cryfderau

- Trefniadau rheoli risg manwl a chadarn.
- Rydym wedi codi proffil a dealltwriaeth o rolau a chyfrifoldebau mewn perthynas â rheoli risg iechyd a diogelwch.
- Mae diwylliant agored o ran adrodd ar achosion y bu ond y dim iddynt ddigwydd a risg.
- Defnyddio arbenigedd yn dda ar draws y Cyngor i nodi a lliniaru risgiau.

Meysydd i'w datblygu

- Gwella effeithlonrwydd ac ansawdd adroddiadau rheoli risg.
- Cryfhau rheolaeth risgiau sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig cydraddoldeb a'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol.
- Ymgorffori cyfrifoldebau arweinwyr gwasanaeth yn llawn o ran nodi a rheoli risg iechyd a diogelwch yn rhagweithiol.

Thema: Cynllunio'r Gweithlu

Rhaid i sefydliad llywodraeth leol sicrhau bod ganddo'r gallu i gyflawni ei swyddogaethau ac i wneud yn siŵr bod polisïau ar waith i warantu bod gan ei reolaeth y gallu gweithredol ar gyfer y sefydliad cyfan. Oherwydd y bydd unigolion a'r amgylchedd y mae awdurdod yn gweithredu ynddo yn newid dros amser, bydd angen parhaus i ddatblygu ei allu yn ogystal â sgiliau a phrofiad arwain aelodau unigol o staff.

Mae gennym gynllun gweithlu effeithiol sy'n cael ei adolygu'n rheolaidd ac sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod gennym y gallu a'r sgiliau angenrheidiol.

- Rydym yn deall yr heriau o ran recriwtio staff a'r effaith bosibl ar ddarparu gwasanaethau. Mae fframwaith cynllunio'r gweithlu yn cael ei adolygu'n flynyddol ac mae ein proses cynllunio'r gweithlu a lansiwyd eleni bellach yn cynnwys darparu canllawiau pro-fforma ar gyfer gwasanaethau a'r gofyniad i nodi mentrau i gefnogi cynllunio olyniaeth ar gyfer rolau penodol.
- Cymerwyd camau i fynd i'r afael â'r canfyddiadau, gan gynnwys cyflwyno dull 'Grow Your Own', i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio mewn meysydd gwasanaeth penodol, megis gwasanaethau cymdeithasol, a chyflwyno Academi Arweinyddiaeth ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a Phrif Swyddogion.
- Rydym yn defnyddio gwybodaeth monitro gweithwyr a'n proses cynllunio gweithlu i adolygu effeithiolrwydd a thegwch ein polisïau a'n harferion cyflogaeth, i'n helpu i nodi materion cydraddoldeb allweddol gyda gwasanaethau ac i adolygu a yw ein gweithlu yn adlewyrchu'r gymuned leol. Rydym yn cymryd camau i wella ein prosesau monitro cydraddoldeb er mwyn targedu camau gweithredu'n well i hyrwyddo amrywiaeth yn y gweithlu.

Rydym yn cydnabod yr angen i 'wneud mwy gyda llai' ac rydym yn newid ein trefniadau gwaith i gefnogi hyn.

- Mae ein blaenoriaeth 'Sicrhau Cyngor Modern a Chryf' yn sicrhau ein bod yn parhau i ganolbwyntio ar ein hymrwymiad i'n rhaglen 'Ffyrdd Modern o Weithio' - nod hwn yw trawsnewid arferion gwaith trwy ddarparu amgylcheddau gwaith gwell, mabwysiadu technoleg newydd ac atebion digidol a gwneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy yn yr hirdymor.
- Mae gennym drosolwg cryf o'n gweithlu, ond mae angen i ni sicrhau bod ein cynllunio gweithlu yn asesu'n llawn effaith y pandemig ar ein cynlluniau gwasanaeth yn y dyfodol a bod hyn yn cael ei adlewyrchu yn ein Strategaeth Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu, strategaethau asedau a cynllunio ariannol.
- Mae Hyrwyddwyr Ffyrdd Modern o Weithio wedi'u penodi ar draws adrannau. Bydd ein harolwg gweithwyr a gynlluniwyd ar gyfer 2022 yn ein helpu i asesu ein cynnydd.

Mae gennym fframwaith i sicrhau bod gennym y bobl sydd â'r sgiliau cywir, y cymwysterau priodol a'r meddylfryd priodol ac rydym yn sicrhau bod gan y gweithlu ymwybyddiaeth gref o lywodraethu da a rheolaeth y gyfraith ac ymrwymiad iddynt.

- Mae gennym Strategaeth Datblygu Sefydliadol a'r Gweithlu ar waith i'n cefnogi i ddatblygu diwylliant lle mae gweithwyr ac aelodau etholedig yn teimlo'n rhan, yn cael eu gwerthfawrogi a'u grymuso a bod ganddynt y sgiliau cywir i'w galluogi i ddarparu gwasanaethau effeithlon.
- Mae fframwaith o bolisïau yn bodoli i gefnogi ein disgwyliadau o'n gweithlu – mae hyn yn cynnwys trefniadau sefydlu, adolygu a datblygu perfformiad (PDR) sy'n cynnwys gwerthoedd a chymwyseddau ymddygiadol.
- Cafodd ein trefniadau sefydlu eu hadolygu a'u diweddaru'n gynhwysfawr yn 2019-20, ac maent yn cynnwys cyfnod prawf i sicrhau yr eir i'r afael ag unrhyw bryderon cynnar, a'r gofyniad i gwblhau modiwlau hyfforddi gorfodol sy'n canolbwyntio ar gydymffurfio â deddfwriaeth a pholisïau allweddol. Mae'r gofynion hyn wedi'u hadolygu a chyflwynwyd amserlenni diweddaru ar gyfer yr holl weithwyr. Mae ein cynnig hyfforddiant yn cynnwys cyfleoedd datblygu o lefel mynediad i lefel gradd.
- Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod angen i ni barhau â gwaith i sicrhau bod sesiynau sefydlu, PDRs a hyfforddiant yn cael eu defnyddio'n effeithiol, ac i wella adrodd ar y rhain.

Rydym wedi ymrwymo i iechyd a lles ein gweithlu.

- Mae lles ein gweithlu wedi bod yn hollbwysig yn ystod pandemig Covid-19 ac fe wnaethom nid yn unig barhau, ond gwella ein cymorth iechyd a lles i'r gweithlu yn ystod y cyfnod hwn, gan gynnig mecanweithiau lles ychwanegol ar gyfer y gwasanaethau hynny a gydnabyddir fel bod dan bwysau sylweddol. Cydnabuwyd hyn gan ein Gwobr Aur Asesiad Iechyd Corfforaethol parhaus – a gynhaliwyd ers 2015 ac a ailaseswyd yn fwyaf diweddar yn 2021 – ac mae'n adlewyrchu ein dull hirdymor ac ataliol.
- Gwelodd y rhan fwyaf o adrannau gynnydd yng nghanran y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb salwch ar ddiwedd 2021-22, ond roedd hyn yn unol â chyfraddau Covid-19.
- Gwelodd canran yr ymadawyr gwirfoddol gynnydd ym mhob adran yn 2021-22, ond roedd hyn yn gyson â symudiad y gweithlu yn genedlaethol yn dilyn Covid-19 a lefel y cyflenwad a'r galw am swyddi newydd.
- Mae canran y dyddiau a gollwyd oherwydd absenoldeb wedi bod yn gyson uwch ar gyfer straen, iselder a phryder yn 2020-21 a 2021-22 nag am resymau eraill, gyda Covid-19 fel yr ail reswm uchaf. Er y gall y ffigurau hyn adlewyrchu hyder cynyddol wrth adrodd, mae ein mentrau cymorth cyffredinol yn cydnabod ac yn ymateb i hyn.

Ein hasesiad 2021-22 - Melyn

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd gallwn ddangos perfformiad da ac mae ein cryfderau'n gorbwyso ein meysydd i'w datblygu.

Cryfderau

- Mae cymorth iechyd a lles yn y gweithle yn dda, fel y gwelir ar draws adolygiadau allanol.
- Rydym wedi cynnal ein Gwobr Aur Safon Iechyd Corfforaethol.
- Parhau i gyflawni'r strategaeth TGCh a digidol
- Mae gennym ymagwedd glir at ein Rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio ac mae hyn wedi gweld cynnydd da yn ystod 2021/22.
- Mae gan y cyngor adnoddau, polisïau a phrosesau da ar waith i gefnogi safonau ymddygiad uchel.
- Mae Iechyd a Diogelwch yn cael ei ymgorffori ar draws y sefydliad fel cyfrifoldeb pawb.
- Mae ein harolwg gweithwyr diweddaraf yn dangos cynnydd o 11% pwynt mewn ymgysylltiad a hyder yn yr arolwg.

Meysydd i'w datblygu

- Gweithio tuag at sicrhau bod y gweithlu'n gynaliadwy; gweithio mewn ffordd fodern a gwydn, gweithio fel un cyngor, cael sgyrsiau gonest sy'n galluogi.
- Mae ymyriadau amserol a strwythurau cyflog priodol wedi'u sefydlu ar gyfer ein gwasanaethau lle bo hynny'n briodol i wella recriwtio a dal gafael ar staff.
- Parhau i wella cyfleoedd hyfforddi a datblygu i sicrhau gweithlu medrus a llawn cymhelliant gan gynnwys proses sefydlu gadarn. Mae PDRs effeithiol yn cefnogi datblygiad gweithlu medrus a llawn cymhelliant.
- Cynllunio gweithlu integredig, ffyrdd modern o weithio ac adolygiadau o swyddfeydd sy'n gweithio'n fwy effeithlon ac sy'n cefnogi'r rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio a blaenoriaeth 'Sicrhau Cyngor Modern a Chryf'.

Thema: Asedau

Mae llywodraeth leol yn sicrhau bod asedau'n cael eu rheoli'n dda er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu'n effeithiol a sicrhau gwerth am arian. Mae rheoli asedau yn ganolog i flaenoriaethau llywodraeth leol, a chaiff asedau eu hadolygu'n rheolaidd a gwneir argymhellion ar gyfer gwella. Ystyrir anghenion gwasanaeth presennol a dyfodol y boblogaeth leol fel rhan o strategaeth rheoli asedau priodol.

Gwerth Asedau'r Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021 yw £452 miliwn fel y Datganiad Cyfrifon a Archwiliwyd (Nodiadau 20 a 24) - mae'r ffigur hwn yn ymwneud ag asedau Cronfa'r Cyngor ac mae'n cynnwys Tir ac Adeiladau, Asedau Isadeiledd, Asedau Dros Ben, Asedau a gaiff eu Hadeiladu ac Asedau a gânt eu Dal i'w Gwerthu ac nid yw'n cynnwys Anheddau'r Cyngor, Asedau Treftadaeth, Cerbydau, Peiriannau a Chyfarpar ac Asedau Cymunedol.

Gwerth Anheddau'r Cyngor fel ag yr oedd ar 31 Mawrth 2021 yw £457 miliwn fel yn y Datganiad Cyfrifon a Archwiliwyd ar gyfer 2020/21 (Nodiadau 20 a 24).

I gael eglurhad pellach ynglŷn â sut y caiff y gwerth hwn ei gyfrif, gweler Atodiad 2 - Rhestr Dermau.

Asedau corfforaethol

Rydym yn cefnogi darparu gwasanaethau drwy sicrhau bod strategaethau rheoli asedau yn cael eu llywio gan anghenion gwasanaeth a gofynion gwasanaeth yn y dyfodol.

- Mae ein Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol gyfredol yn pwysleisio pwysigrwydd ac arwyddocâd portffolio eiddo'r cyngor yn y gweithgareddau y mae'n eu cyflawni wrth ddarparu ei wasanaethau. Mae'r Strategaeth ar hyn o bryd yn hwyr i gael ei hadolygu o ganlyniad i effaith yr ymateb brys i Covid-19 ar adnoddau'r adran, ond mae'r gwaith hwn wedi'i raglennu ar gyfer 2022-23.

- Bydd angen i'n hadolygiad Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol ystyried yr hyn a ddysgwyd a meysydd i'w gwella o'r pandemig, a chyn belled ag y bo modd, egluro gweledigaeth y cyngor ar gyfer siâp a maint ei asedau adeiladu, gan gadw hyblygrwydd.

- Mae ein hymagwedd at reoli asedau corfforaethol yn cefnogi ein blaenoriaeth lles 'Sicrhau Cyngor Modern a Chryf' ac o'r herwydd mae'r cyngor wedi bod yn ad-drefnu ei asedau am sawl blwyddyn. Mae effaith Covid-19, egwyddorion Ffyrdd Modern o Weithio y cyngor a gwelliannau mewn technoleg ddigidol wedi dylanwadu ar y ffordd yr ydym yn edrych ar ein hasedau. Rydym yn parhau i fod yn ymwybodol o effaith ein hadolygiad o swyddfeydd ar ganol tref Wrecsam ac mae ein hadnewyddiad diweddar o Adeiladau'r Goron wedi darparu cyfleuster modern gyda lle ar gyfer tua 625 o staff.

- Rydym yn gweithio ar y cyd â chonsortia cenedlaethol ac yn archwilio opsiynau'n rheolaidd ynghylch cydweithio â'n partneriaid a/neu rannu asedau. Ystyrir hyn o safbwynt gwella gwasanaeth yn ogystal ag o safbwynt ariannol – er enghraifft mae Heddlu Gogledd Cymru bellach yn meddiannu rhan o Lyfrgell Wrecsam ac mae'r 'Hwb Lles' yn Adeiladau'r Goron

a adnewyddwyd yn ddiweddar yn rhoi cyfle i ni gynnig gwasanaethau integredig gyda'n partneriaid.

Rydym yn cymryd camau i wella ansawdd ein gwybodaeth am asedau a'n cymorth i adrannau adolygu eu cynlluniau rheoli asedau.

- Mae pob adran yn cynhyrchu cynllun rheoli asedau gwasanaeth, sy'n nodi'r angen gwasanaeth am ei hasedau ac sy'n ganlyniad her fewnol ac adolygiad o opsiynau amgen ar gyfer defnyddio asedau a darparu gwasanaeth o fewn ein fframwaith cyllidebol llym.
- Rydym wedi caffael meddalwedd rheoli asedau newydd sy'n darparu dull integredig a rhagweithiol a fydd yn cefnogi prosesau penodol ar gyfer caffael a gwaredu a darparu gwell swyddogaeth adrodd. Ein nod yw bod wedi mudo'n llawn i'r system newydd hon erbyn diwedd 2022-23.
- Mae cyfleoedd i wella prosesau a chysondeb yn ymwneud â rheoli asedau ar draws y Cyngor. Roedd gan y cyngor Grŵp Gweithredu Rheoli Asedau yn flaenorol a oedd yn cynnwys cysylltiadau/cynrychiolwyr adrannol. Roedd yr ymateb brys i Covid-19 yn golygu nad yw'r grŵp hwn wedi cyfarfod ers cyn mis Mawrth 2020. Bu trosiant o swyddogion Grŵp Gweithredu Rheoli Asedau ac rydym wedi cydnabod bod angen i ni nawr geisio cynrychiolwyr priodol o'r adran i ailsefydlu'r grŵp hwn.
- Bydd y Grŵp Gweithredu Rheoli Asedau yn cefnogi ymagwedd gyson ar draws adrannau i gyflawni'r egwyddorion a nodir yn y Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol; eglurder y broses adolygu asedau a chynllunio asedau; eglurder rolau a chyfrifoldebau; a darparu fforwm i'n rhanddeiliaid gyfarfod a rhoi adborth, ac ati.

Rydym yn cydnabod yr angen i gael y gwerth gorau am arian ac i weithio tuag at wella cynaliadwyedd hirdymor a lleihau'r defnydd o ynni.

- Mae gennym fframweithiau contract ar waith sy'n cynnwys mecanweithiau i adolygu prisiau gan ddefnyddio mynegeion a gydnabyddir yn genedlaethol - fodd bynnag mae'r cynnydd sydyn diweddar mewn deunyddiau adeiladu wedi golygu bod rhai contractwyr wedi gadael y fframweithiau. Mae addasiadau pris bellach yn cael eu hystyried ar amlder byrrach i helpu i liniaru'r risgiau hyn i'r gadwyn gyflenwi.
- Rydym yn cydnabod yr angen i ystyried nid yn unig adnoddau ariannol a ffisegol o ran gwerth am arian a'r defnydd gorau o adnoddau: rhaid ystyried ymrwymiad y cyngor i gyfrannu at yr agenda datgarboneiddio cenedlaethol ym mhob penderfyniad a strategaeth a bydd angen cynnwys hyn yn ein hadolygiad o'n Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol.
- Mae ein polisi Trosglwyddo Asedau Cymunedol yn cefnogi cynaliadwyedd hirdymor asedau.

Mae ein rheolaethau llywodraethu yn dda, ond rydym yn cydnabod bod cyfleoedd i wella eglurder ynghylch ein penderfyniadau.

- Mae penderfyniadau am asedau yn aml yn ddadleuol ac mae risg i enw da'r cyngor os nad yw ein prosesau'n glir ac yn ddealladwy i aelodau etholedig, y cyhoedd a'n rhanddeiliaid.

Stoc Tai

Rydym yn cefnogi darparu gwasanaethau drwy sicrhau bod strategaethau rheoli asedau yn cael eu llywio gan anghenion gwasanaeth a gofynion gwasanaeth yn y dyfodol.

- Mae rheolaeth effeithiol o'n stoc tai yn cefnogi blaenoriaeth lles 'Sicrhau Bod Pawb yn Ddiogel' y cyngor i sicrhau bod pobl, yn enwedig y rhai mwyaf agored i niwed, yn cael mynediad at y tai cywir.
- Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i gynyddu ein stoc tai gyda rhaglenni adeiladu a phrynu parhaus.
- Mae Strategaeth Tai Lleol 2018-23 yn sefydlu'r blaenoriaethau a'r camau gweithredu ar gyfer ein gwasanaethau tai. Fe'i hysbysir gan yr Asesiad o'r Farchnad Dai Leol (AMTLl) sy'n nodi'r angen lleol am dai. Bydd yr AMTLl yn cael ei adolygu yn 2022-23.
- Mae ein Polisi Dyraniadau Tai yn sicrhau bod llety'n cael ei ddarparu i ddiwallu anghenion tai pob grŵp mewn cymunedau lleol ac rydym yn casglu data monitro cydraddoldeb i gefnogi hyn.
- Mae Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) yn cydnabod bod tenantiaid Wrecsam yn rhanddeiliaid allweddol ac yn chwarae rhan flaenllaw wrth lywio a llunio elfennau allweddol o'r rhaglen buddsoddi cyfalaf.
- Rydym wedi cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) 1 ac mae cynnal y safon hon bellach wedi'i sefydlu.
- Bydd gofynion gwasanaeth y dyfodol yn cael eu llywio gan SATC2 sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd. Datgarboneiddio fydd y ffocws wrth symud ymlaen, gyda'r gwaith yn debygol o ddechrau ym mis Ebrill 2023.

Rydym yn cymryd camau i wella ansawdd ein gwybodaeth am asedau a'n prosesau cynllunio.

- Rydym wedi nodi'r angen i ailstrwythuro ein gwasanaeth tai i fabwysiadu dull strategol mwy integredig ar draws y timau buddsoddi a chynnal a chadw ar gyfer y dyfodol. Bydd aliniad ein buddsoddiad cyfalaf ac atgyweiriadau tai yn cefnogi datblygiad a darpariaeth ystod eang o raglenni, gan gynnwys lleihau carbon ac ynni, atgyweiriadau, gwaith wedi'i gynllunio, eiddo gwag a gwasanaethau eiddo a buddsoddi.
- Bydd ein meddalwedd rheoli asedau newydd yn cefnogi'r dull hwn, gan gynnig dull integredig, hyblyg a hawdd ei ddefnyddio ar gyfer ein swyddogion a'n tenantiaid. Fe'i defnyddir ar gyfer cynllunio busnes, cynhyrchu rhaglenni gwaith y dyfodol a chyfrifo costau cysylltiedig.

Rydym yn cydnabod yr angen i gael y gwerth gorau am arian ac i weithio tuag at wella cynaliadwyedd hirdymor a lleihau'r defnydd o ynni.

- Rydym yn rheoli'r CRT yn effeithiol i sicrhau ein bod yn gwneud y mwyaf o'r incwm sydd ar gael i wella ein stoc – rydym wedi cyflawni gostyngiad mewn ôl-ddyledion rhent, cynnydd mewn gosodiadau a gwelliannau i gynnal tenantiaethau er gwaethaf pandemig Covid-19.
- Cynhelir ymarferion caffael rheolaidd – yn fwyaf diweddar, ail-gaffael y fframwaith unedau gwag a chaffael y rhaglen ffenestri a drysau newydd. Mae cynnydd mewn cyfraddau contractwyr a phrisiau deunyddiau wedi'u nodi yn y 2 flynedd ddiwethaf.
- Rydym yn cydnabod yr angen i wella.
- Defnyddiwyd rhaglen SATC i gefnogi gwerth cymdeithasol / buddion cymunedol a defnyddir ein contractau i hyrwyddo lles cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol mewn cymunedau.
- Mae ein Cynllun Datgarboneiddio yn cynnwys camau gweithredu ar gyfer y Gwasanaeth Tai mewn perthynas â'r stoc tai a bydd angen i'n Cynllun Busnes Tai yn y dyfodol adlewyrchu SATC2.

Rydym yn adrodd yn rheolaidd ar ba mor dda yr ydym yn rheoli ein stoc tai a'r cyllid cysylltiedig.

- Rydym yn adrodd i Bwyllgor Craffu Cartrefi a'r Amgylchedd y cyngor yn ôl yr angen, ac yn cyflwyno datganiadau chwarterol a blynyddol i Lywodraeth Cymru.
- Rydym yn paratoi adroddiadau perfformiad chwarterol cynhwysfawr ar gyfer y Bartneriaeth Aelodaeth Tenantiaid – rhent (refeniw ac ôl-ddyledion); rheoli gosodiadau a thai gwag, diweddariadau ar y stoc dai; atgyweiriadau a chynnal a chadw cynlluniedig; rheoli a chynnal tenantiaeth; a chydymffurfiaeth statudol â gwasanaethu nwy.

Rydym yn cynnwys ein rhanddeiliaid a thenantiaid wrth ddylunio ein gwasanaethau ac yn ceisio adborth yn rheolaidd i wella ein gwasanaethau.

- Rydym yn cyflogi Swyddog Cyfranogiad Tenantiaid ymroddedig sy'n hyrwyddo ac yn annog cyfranogiad ar draws ystod o fentrau - Partneriaeth Tenantiaid, Fforymau Tenantiaid, Cymdeithasau Tenantiaid a Phreswylwyr, Grwpiau Gwella Gwasanaeth, arolygon a holiaduron, digwyddiadau tenantiaid blynyddol.
- Rydym yn mynd ati i ystyried ffyrdd o sicrhau bod cynrychiolaeth ar draws demograffeg tenantiaid cwbl amrywiol ac yn ymgynghori ar bob newid arfaethedig i bolisïau sy'n effeithio ar reolaeth cartrefi tenantiaid.
- Rydym yn cynnal arolygon o denantiaid a phreswylwyr bob dwy flynedd fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a byddwn yn ailgyflwyno arolygon 'tenantiaid newydd.'
- Mae gwaith sylweddol wedi'i wneud i leihau nifer yr eiddo gwag ac rydym wedi gweithio ochr yn ochr â thenantiaid i ddatblygu nifer o fentrau a gyfrannodd at leihau ôl-ddyledion (gan gynnwys diwygiadau i'r cynnwys a'r broses gyflenwi ar gyfer cyfathrebu, cyflwyno ymyriadau cyn mynd i'r llys a gwaith rhagweithiol gan Swyddogion Cynhwysiant Ariannol a Swyddogion Ystadau.)

Ein hasesiad 2021-22 - Oren

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd ein bod yn dangos perfformiad boddhaol, ond efallai y bydd angen buddsoddiad a mwy o gapasiti mewn nifer o feysydd allweddol.

Cryfderau

- Rydym wedi sefydlu prosesau rheoli asedau corfforaethol.
- Cydnabu Archwilio Cymru ein bod yn rhagweithiol.
- Mae ein Hadolygiad o Swyddfeydd ar y gweill.
- Rydym eisoes wedi bod yn gweithio i resymoli / ail-bwrpasu i fodloni ein gofynion yn y dyfodol ac mae hyn wedi'i gyflymu gan Covid-19 a'n rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio.
- Cydymffurfio â SATC1 wedi'i gyflawni a'i gynnal – bydd y gwaith cynnal a chadw yn parhau fel gweithgaredd 'busnes fel arfer.'
- Gwaith wedi'i wneud ac yn mynd rhagddo tuag at ddatgarboneiddio (gosod paneli solar foltaidd, rhaglenni effeithlonrwydd ynni).
- Rheolaeth effeithiol o'r CRT – gostyngiad mewn ôl-ddyledion rhent a thai gwag er mwyn cynyddu'r incwm sydd ar gael, gwelliannau o ran cynnal tenantiaeth.
- Cynnal cyflwr a gwerth y stoc tai - atgyweiriadau ymatebol, gwaith wedi'i gynllunio, gweithlu mewnol, adnewyddu i safon uchel, cydymffurfiaeth statudol.
- Gweithio i gynyddu'r stoc a bodloni gofynion yr awdurdod lleol (e.e. rhaglenni digartrefedd ac ailsefydlu), gweithio'n effeithiol gyda Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol eraill ar fentrau a ariennir â grant.

Meysydd i'w datblygu

- Gwella rheolaeth strategol ac adrodd ar sut rydym yn rheoli ein hasedau corfforaethol.
- Gwella cysondeb y dull o reoli asedau corfforaethol ar draws adrannau a gwasanaethau.
- Sicrhau bod ein dull o reoli ein hasedau corfforaethol yn mynd i'r afael â'n ffyrdd o weithio yn y dyfodol a'n gofynion gwasanaeth ac yn bodloni gofynion ein hymrwymiadau datgarboneiddio ac yn adlewyrchu hyn yn ein Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol.
- Sicrhau bod rheolaeth gywir ar asedau CRT yn llywio cynllunio busnes a rheolaeth ariannol effeithiol.
- Rheoli'r CRT yn effeithiol i wneud y mwyaf o incwm a darparu gwerth am arian a gwella rheolaeth a chydymffurfiaeth â chontractau.
- Sicrhau bod strwythur y Gwasanaeth Tai yn cefnogi agwedd strategol ar draws timau buddsoddi a chynnal a chadw.

Thema: Caffael

Caffael effeithiol sy'n seiliedig ar gomisiynu, sy'n gwella cynhyrchiant ac effeithlonrwydd er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bobl leol. Mae'r broses gaffael yn gynaliadwy o ran diwallu anghenion pobl leol mewn ffordd sy'n sicrhau gwerth am arian ac yn creu buddion i'r bobl leol, yr economi leol a'r sefydliad tra'n lleihau difrod i'r amgylchedd.

Mae arfarniadau o opsiynau a gwneud penderfyniadau yn seiliedig ar ddadansoddiad a chyngor ac mae tystiolaeth o resymu a phenderfyniadau clir.

- Mae'r tîm caffael yn dilyn cylch comisiynu llawn, yn unol â'r Strategaeth Comisiynu a Chaffael gyfredol a'r Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau ddrafft y disgwylir iddi gael ei chytuno ym mis Gorffennaf 2022. Mae safonau arfer da a chyngor ar gael i wasanaethau ac rydym ni gweithio'n agos gyda Phrif Swyddogion a rheolwyr i gefnogi caffael llwyddiannus.
- Bydd Diwygio Caffael (Ebrill 2023) yn gofyn am fwy o dryloywder ar gaffael dros £25k – mae ein tîm caffael eisoes yn gweithio i mewn i lawer o'r gofynion hyn fel rhan o arfer da. Mae cynllunio ar y gweill ar gyfer gweithdai hydref 2022 gyda swyddogion ac aelodau etholedig i gyflwyno'r newidiadau ac mae gofynion newydd yn cael eu cynnwys yn ein prosesau.

Mae gennym dîm canolog, profiadol, ond rydym yn wynebu problemau capasiti.

- Mae'r tîm caffael yn uned ganolog sy'n golygu ein bod yn gallu gweithio ar y cyd o fewn adrannau tra'n cynnal trosolwg o gomisiynu a chaffael ar draws yr awdurdod a chanfod cyfleoedd i wneud y mwyaf o gyllidebau ac arbenigedd.
- Rydym yn gweithio gydag adrannau i gynllunio eu gofynion caffael er mwyn helpu i sicrhau bod gennym y gallu i'w cefnogi yn ôl yr angen.
- Rydym wedi cydnabod y cyfle i weithio'n agosach gyda chydweithwyr cyllid i sicrhau bod datblygiadau caffael yn cael eu hadlewyrchu mewn cynllunio ariannol.
- Ar ddiwedd 2021-22, mae trosiant gweithwyr oherwydd amodau marchnad gystadleuol, yn golygu bod gennym swyddi gwag sy'n anodd eu llenwi. Mae'r mater hwn o gapasiti yn risg i'n gallu i gefnogi prosesau a phrosiectau caffael ar draws y cyngor.

Rydym yn gweithio ar y cyd ac mewn partneriaeth â chydweithwyr a rhanddeiliaid.

- Mae gan ein tîm berthnasoedd rhwydweithio rhanbarthol a chenedlaethol effeithiol sy'n cefnogi dealltwriaeth dda o farchnadoedd.
- Rydym yn gweithio mewn partneriaeth ar draws Gogledd Cymru ac mae gennym brofiad o gymryd y rôl caffael arweiniol ar brosiectau partneriaeth yn ôl yr angen.
- Rydym yn cydnabod manteision gweithio mewn partneriaeth i gynyddu capasiti a chyflawni amcanion a rennir – fodd bynnag, cydnabuwyd bod gan gymhlethdodau prosesau comisiynu cenedlaethol (fel yr amlygwyd gan Archwilio Cymru mewn perthynas â chomisiynu lleoliadau cartrefi gofal) y potensial i gael effaith andwyol ar ddefnyddwyr gwasanaeth.

- Rydym yn cynnwys y cyhoedd a'n rhanddeiliaid wrth wneud penderfyniadau ac adborth, a chaiff hyn ei atgyfnerthu fel rhan o'r Diwygiadau Caffael.
- Mae ein Strategaeth Comisiynu a Chaffael gyfredol a'r Strategaeth Comisiynu, Caffael a Rheoli Contractau drafft y disgwylir iddynt gael ei chytuno ym mis Gorffennaf 2022 yn cynnwys ymrwymiad i ystyried cydraddoldeb yn ein penderfyniadau comisiynu a chaffael ac mae hyn wedi'i gynnwys yn ein dogfennau tendro a'n contractau.

Rydym wedi cymryd camau i wneud y mwyaf o 'werth cymdeithasol' ein caffael.

- Mae ein Strategaeth Comisiynu a Chaffael ddrafft (i'w chytuno ym mis Gorffennaf 2022) yn nodi gwerth cymdeithasol fel blaenoriaeth allweddol, ac yn diffinio'n glir bod hyn yn Wrecsam yn golygu cyfrannu at ddatgarboneiddio a darparu budd cymunedol diffiniedig. (Budd cymunedol yw darparu rhywbeth mewn nwyddau ar gyfer y gymuned, taliad arian parod tuag at angen cymunedol, neu gynhyrchion a gwasanaethau i helpu cymuned benodol yn y Fwrdeistref Sirol.)

Ein hasesiad 2021-22 - Melyn

Rydym wedi dod i'r casgliad hwn oherwydd gallwn ddangos perfformiad da ac mae ein cryfderau'n gorbwyso ein meysydd i'w datblygu.

Cryfderau

- Mae prosesau caffael yn dda.
- Rydym wedi cryfhau prosesau cymeradwyo o ran gwneud penderfyniadau caffael o fewn y 12 mis diwethaf.
- Mae newidiadau i'r gweithlu wedi'u rheoli'n dda.
- Mae prosesau 'Prynu i Dalu' yn gweithio'n dda – rydym yn sicrhau bod gwariant posibl oddi ar y contract yn cael ei fonitro ac yn destun adolygiad caffael lle bo'n briodol.
- Parhau i ddatblygu dull o gyflwyno gwerth cymdeithasol gyda phartneriaid gan gynnwys Prifysgol Manceinion.

Meysydd i'w datblygu

- Sicrhau cydymffurfiaeth â Diwygio Caffael a'r Fframwaith Cyffredin ar gyfer Caffael Cyhoeddus a'u cyflawni.
- Gwella recriwtio a chadw tîm caffael yn erbyn cefndir o farchnad gyflogaeth gystadleuol.
- Blaenoriaethu lleihau allyriadau carbon a dim allyriadau drwy gaffael cyfrifol a chynaliadwy i gyflawni ein huchelgais ar gyfer sector cyhoeddus sero net yng Nghymru erbyn 2030.
- Cyfrannu at well rheolaeth ariannol a chynllunio cyllideb gyda gwell integreiddio rhwng gwasanaethau cyllid a chaffael.
- Ymgorffori rheolaeth effeithiol o gontractau ar draws y sefydliad.

Atodiad 1: Ffynonellau tystiolaeth allweddol

Roedd yr adolygiad i lywio'r adroddiad yn ystyried sylfaen dystiolaeth eang, wedi'i harwain gan 'Canllawiau Statudol: Perfformiad a Llywodraethu Awdurdodau Lleol' Llywodraeth Cymru. Roedd hyn yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:

- Adroddiadau a gynhyrchwyd gan y cyngor mewn ymateb i ofynion statudol;
- Tystiolaeth, adroddiadau a chyngor gan amrywiaeth o gyrff arolygu a rheoleiddio;
- Adolygu strategaethau, polisïau a gweithdrefnau amrywiol y cyngor;
- Adroddiadau i wahanol bwyllgorau'r cyngor, gan gynnwys y Cyngor, y Bwrdd Gweithredol, pwyllgorau craffu a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio;
- Adroddiadau archwilio mewnol a hunanwerthusiadau a gynhaliwyd gan y cyngor a gwasanaethau unigol;
- Canmoliaeth, cwynion ac adborth arall o brosesau ymgysylltu â phobl leol a rhanddeiliaid; ac
- Arolygon gweithlu ac allbynnau o brosesau ymgysylltu eraill gyda'r gweithlu a'r Undebau Llafur cydnabyddedig.

Mae rhai o'r dogfennau cyhoeddedig allweddol a adolygwyd gennym, gyda hyperddolenni, wedi'u nodi isod:

Cyfansoddiad Cyngor Wrecsam

Cynllun y Cyngor (2022-23) ac Adroddiad Perfformiad Blynyddol Cynllun y Cyngor (2021-22)

Datganiad Llywodraethu Blynyddol (2021-22)

Monitro'r Gyllideb – Rhagfyr 2021

Adroddiad Blynyddol Cwynion a Chanmoliaeth Corfforaethol 2021

Llythyr Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru Caffael Lles yng Nghymru 2021

Crynodeb Archwilio Blynyddol Archwilio Cymru 2021

Adolygiad Sbarduno Gwelliant Parhaus Archwilio Cymru 2021

Asesiad Cynaliadwyedd Ariannol Cyngor Wrecsam 2021 Archwilio Cymru

Archwiliad Archwilio Cymru o Gyfrifon 2020-21

Adolygiad Llamu Ymlaen 2022 Archwilio Cymru

Adolygiad o Ymgysylltu â'r Cyhoedd Archwilio Cymru 2022

Ymweliad Monitro Estyn (Tachwedd 2021)

Arolygiaeth Gofal Cymru Ebrill 2021 a Thachwedd 2021

Adroddiad Comisiynydd y Gymraeg 2021 a 2022

Atodiad 2: Rhestr Dermau

Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Pwrpas y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (DLlB) yw disgrifio i ba raddau y mae'r Cyngor wedi cydymffurfio â'i God Llywodraethu. Mae'n disgrifio sut mae effeithiolrwydd y trefniadau llywodraethu wedi eu monitro a'u gwerthuso yn ystod y flwyddyn ac yn nodi meysydd i'w gwella yn y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'n ofynnol cyhoeddi'r DLlB fel rhan o'n Datganiad Cyfrifon Blynyddol.

Prisio Asedau – manylion ychwanegol

Asedau Cronfa'r Cyngor – Mae asedau sydd wedi'u cynnwys yn y Fantolen ar eu gwerth presennol yn cael eu hailbrisio'n ddigon rheolaidd i sicrhau nad yw eu swm cario'n sylweddol wahanol i'w gwerth presennol ar ddiwedd y flwyddyn, ond fel isafswm bob pum mlynedd.

Mae asedau yn cael eu cario yn y Fantolen gan ddefnyddio'r seiliau mesur canlynol:

- asedau isadeiledd – cost hanesyddol ddibrisiedig
- asedau sy'n cael eu hadeiladu – cost hanesyddol
- swyddfeydd y Cyngor – gwerth presennol, wedi'i bennu fel y swm a fyddai'n cael ei dalu am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol), ac eithrio rhai swyddfeydd sydd wedi'u lleoli'n agos at eiddo tai'r Cyngor, lle nad oes marchnad ar gyfer swyddfeydd, ac sy'n cael eu mesur ar gost amnewid ddibrisiedig (adeiladu ar unwaith) fel amcangyfrif o'r gwerth presennol
- adeiladau ysgolion – gwerth presennol, oherwydd eu natur arbenigol, wedi'i fesur ar gost amnewid ddibrisiedig sy'n cael ei defnyddio fel amcangyfrif o werth presennol
- asedau dros ben – y sail mesur gwerth presennol yw gwerth teg, wedi'i amcangyfrif ar y defnydd uchaf a gorau o safbwynt y farchnad
- pob ased arall – gwerth presennol, a bennir fel y swm a delir am yr ased yn ei ddefnydd presennol (gwerth defnydd presennol).

Gwerth Anheddau'r Cyngor ar 31 Mawrth 2021 yw £457 miliwn fel yn y Datganiad Cyfrifon a Archwiliwyd ar gyfer 2020/21 (Nodiadau 20 a 24).

- Caiff Anheddau'r Cyngor eu cario yn y Fantolen yn seiliedig ar werth presennol, wedi ei bennu gan ddefnyddio sail gwerth defnydd presennol ar gyfer tai cymdeithasol

Archwilio Cymru

Archwilio Cymru yw'r nod masnach ar gyfer dau endid cyfreithiol: Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru.

Mae gan y naill a'r llall ei bwerau a'i ddyletswyddau penodol ei hun.

- Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn archwilio ac yn adrodd am gyrff cyhoeddus Cymru.
- Mae Swyddfa Archwilio Cymru yn darparu staff ac adnoddau eraill ar gyfer gwaith yr Archwilydd Cyffredinol, ac yn monitro a chynghori'r Archwilydd Cyffredinol.

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth / Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol

Mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth yn gorff rhyngwladol wedi ei leoli yn y DU ar gyfer cyfrifwyr er mwyn gosod safonau.

Cymdeithas Prif Weithredwyr ac Uwch-reolwyr yr Awdurdodau Lleol yw'r prif rwydwaith aelodau ar gyfer gweithwyr proffesiynol llywodraeth leol a'r sector cyhoeddus yn y DU.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Arolygiaeth Gofal Cymru yw'r rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru.

Strategaeth Gomisiynu a Chaffael

Trefniadau'r Cyngor ynglŷn â'r ffordd y mae'n ymgymryd â gweithgareddau comisiynu, caffael a rheoli contractau.

Y Cyfansoddiad

Mae'r Cyfansoddiad yn nodi sut mae'r Cyngor yn gweithredu, sut y mae penderfyniadau'n cael eu gwneud, a'r gweithdrefnau y mae'n eu dilyn i sicrhau ei fod yn effeithlon, yn dryloyw ac yn atebol i bobl leol. Mae'n cynnwys 22 o adrannau, sy'n cynnwys adrannau ynglŷn â'r rheolau, protocolau a chodau ymarfer mae cynghorwyr a gweithwyr yn ei dilyn wrth wneud eu gwaith.

Strategaeth Tir ac Adeiladau Corfforaethol

Mae strategaeth y Cyngor yn nodi pwysigrwydd ac arwyddocâd portffolio eiddo'r Cyngor yn y gweithgareddau y mae'n eu gwneud, ac yn ceisio herio a chyfiawnhau pam y cedwir asedau, gan edrych ar ddewisiadau amgen ar gyfer defnyddio asedau a darparu gwasanaethau o fewn ein fframwaith cyllidebol cyfyng.

Y Cyngor

56 o Aelodau Etholedig.

Yn cymeradwyo Cynllun y Cyngor ac yn cytuno ar y Cyfansoddiad, fframwaith polisi a fframwaith ariannol.

Cynllun y Cyngor

Mae Cynllun y Cyngor yn ddogfen allweddol, y cytunwyd arni gan y Cyngor, sy'n cyhoeddi'r amcanion lles a chydraddoldeb.

Pwyllgor Safonau'r Cyngor

Pwyllgor y Cyngor sy'n hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad gan aelodau etholedig a chyfetholedig, ac yn monitro gweithrediad Cod Ymddygiad yr Aelodau.

Protocol Aelodau Etholedig

Mae'r Protocol yn hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad ac ymarfer fel modd o gryfhau parch ac ymddiriedaeth ymhlith aelodau. Mae wedi ei gynnwys yn y Cyfansoddiad.

Estyn

Estyn yw'r arolygiaeth addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Y Bwrdd Gweithredol

Penodir y Bwrdd Gweithredol i ymgymryd â holl swyddogaethau'r Cyngor nad ydynt yn gyfrifoldeb i unrhyw ran arall o'r Cyngor, naill ai yn ôl y Gyfraith neu dan y Cyfansoddiad. Mae'r Bwrdd Gweithredol yn cynnwys Arweinydd y Cyngor a naw Cynghorydd arall sydd wedi eu penodi i'r Bwrdd Gweithredol gan y Cyngor.

Llywodraethu / Fframwaith Llywodraethu

Mae Llywodraethu yn cyfeirio at y prosesau a ddilynir er mwyn cyfarwyddo, rheoli, ac arwain sefydliadau fel cynghorau, a'u dwyn i gyfrif. Mae ein fframwaith llywodraethu wedi ei nodi yn ein Cod Llywodraethu, sy'n nodi ein hymrwymiad i lywodraethu'n dda ac i'r fframwaith o reolyddion a threfniadau sydd gennym ar waith i sicrhau ein bod yn llywodraethu'n dda.

Y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)

Mae'r CRT yn cofnodi gwariant ac incwm yn ymwneud â stoc dai'r Cyngor.

Archwilio Mewnol

Mae Archwilio Mewnol yn swyddogaeth sicrwydd annibynnol sy'n ymgymryd â gwaith a fydd yn llywio barn flynyddol Pennaeth Archwilio Mewnol ar ddigonolrwydd cyffredinol fframwaith llywodraethu, rheoli risg a rheolaeth y Cyngor, gan gynnwys ei holl weithrediadau, adnoddau a gwasanaethau a chyfrifoldebau yn ymwneud â chyrff eraill.

Strategaeth Gyfranogi

Mae Strategaeth Gyfranogi'r Cyngor yn nodi ymrwymiad y Cyngor i gynnwys pawb yn ein cymunedau mewn trafodaethau ynglŷn â'r gwasanaethau yr ydym yn eu dylunio a'u darparu, a'r egwyddorion y byddwn yn eu dilyn i sicrhau hyn.

Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021

Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi sefydlu fframwaith deddfwriaethol newydd ar gyfer etholiadau, democratiaeth, llywodraethu a pherfformiad llywodraeth leol.

Cynllun Ariannol Tymor Canolig

Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ganllaw strategol i gynlluniau gwario'r Cyngor dros y 3 blynedd nesaf i hybu blaenoriaethau'r Cyngor yng nghyd-destun cyllideb flynyddol gytbwys. Mae'n rhagdybio sefyllfa ariannol y Cyngor yn y dyfodol yn seiliedig ar nifer o dybiaethau, gan nodi cyllidebau refeniw a chyfalaf dangosol, gan gynnwys amcanestyniadau o lefel debygol Treth y Cyngor a balansau'r Cyngor.

Y Strategaeth Datblygu Aelodau

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn nodi nifer o ofynion yn ymwneud â hyfforddi a datblygu Aelodau. Mae'r Strategaeth Datblygu Aelodau yn nodi'r gweithgareddau datblygu a hyfforddi sydd wedi eu dylunio'n benodol i wella gwybodaeth, sgiliau a gallu aelodau etholedig yn eu rolau amrywiol.

Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy

Mae Cynghrair Mersi a'r Ddyfrdwy yn bartneriaeth sy'n cefnogi twf economaidd strategol ledled gogledd-ddwyrain Cymru, gorllewin Swydd Gaer a Chilgwri, a gydnabyddir fel un is-ranbarth economaidd gyda phoblogaeth yn agos at 1 miliwn.

Rhaglen Ffyrdd Modern o Weithio

Rhaglen i drawsnewid ein harferion gwaith drwy ddarparu amgylcheddau gwaith gwell, mabwysiadu technoleg ac atebion digidol newydd, gwneud ein gwaith yn fwy cynaliadwy yn y tymor hir a herio'r diwylliant mewn perthynas â'r ffordd y mae'r Cyngor yn gweithio.

Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru

Mae BUEGC yn bartneriaeth rhwng y chwe awdurdod lleol yng ngogledd Cymru a phartneriaid eraill yn y rhanbarth. Dyma'r grŵp nawdd a'r corff gwneud penderfyniadau ar gyfer Bargen Dwf Gogledd Cymru, wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU yn ogystal â phartneriaid preifat a chyhoeddus eraill, gyda'r nod o greu economi mwy bywiog, cynaliadwy a gwydn ar gyfer gogledd Cymru.

Adolygiad Gofod Swyddfa

Rhaglen waith i adolygu ein gofynion gofod swyddfa, sicrhau bod ein hasedau yn ateb y gofyn a darparu gofod swyddfa modern a hyblyg sydd yn bodloni gofynion sefydliad modern.

Fframwaith Rheoli Perfformiad

Mae fframwaith rheoli perfformiad yn sicrhau bod unigolion, timau a'r sefydliad yn gyffredinol yn gwybod yr hyn y dylent ei wneud, pryd y dylent ei wneud, a sut y dylent ei wneud. Mae'n rhan o'r cylch parhaus 'Cynllunio, Gwneud, Adolygu', sy'n golygu hunanasesu, cynllunio gwasanaethau a rheoli perfformiad yn gadarn. Mae'n canolbwyntio ar sicrhau ein bod yn cyflawni ein hamcanion, ein blaenoriaethau corfforaethol a blaenoriaethau partneriaeth fel y nodir yng Nghynllun y Cyngor.

Adolygiad a Datblygiad Personol

Trefniadau'r Cyngor ar gyfer adolygu perfformiad y gweithlu, i arfarnu perfformiad y gweithwyr dros y flwyddyn flaenorol, gosod amcanion, nodi anghenion hyfforddiant a datblygu, ac i ddarparu adborth adeiladol er mwyn gallu perfformio'n dda.

Byrddau Blaenoriaeth

Caiff pob un o flaenoriaethau'r Cyngor ei chefnogi gan Fwrdd Blaenoriaeth sy'n gyfrifol am gyflawni'r canlyniadau a nodir yn y Cynllun, ac adrodd am y rhain i aelodau etholedig a'r cyhoedd.

Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus

Sefydlwyd Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ac maent yn cynnwys nifer o aelodau statudol (gan gynnwys awdurdodau lleol) i wella cydweithio ymhlith yr holl wasanaethau cyhoeddus ym mhob ardal awdurdod lleol yng Nghymru.

Prynu i Dalu

Proses e-gaffael y Cyngor.

Amcanion Cydraddoldeb Strategol

Mae'n ofynnol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 i awdurdodau cyhoeddus ystyried sut y gallant gyfrannu'n gadarnhaol i gymdeithas decach drwy hybu cydraddoldeb a pherthynas dda ag 8 'nodwedd a ddiogelir', a rhyngddynt. Mae'n ofynnol bod awdurdodau lleol yn paratoi a chyhoeddi eu hamcanion cydraddoldeb strategol bob 4 blynedd, o leiaf. Mae ein hamcanion cydraddoldeb strategol wedi eu cyhoeddi yn rhan o Gynllun y Cyngor.

Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Cyflwynodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yr egwyddor datblygu cynaliadwy: pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. Mae'n nodi 'pum ffordd o weithio' i gynnal y dull gweithredu yma – yr hirdymor, integreiddio, cyfranogi, cydweithio ac atal.

Nodau Lles Cymru

Saith nod lles cyd-ddibynnol ar gyfer Cymru, wedi eu sefydlu gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Amcanion Lles / Blaenoriaethau'r Cyngor

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gytuno a chyhoeddi eu hamcanion lles eu hunain, sy'n cyfrannu tuag at nodau lles Cymru. Yng Nghyngor Wrecsam, mae'r rhain wedi eu cyhoeddi yng Nghynllun y Cyngor, ac maent hefyd yn gweithredu fel Blaenoriaethau'r Cyngor.

Safon Ansawdd Tai Cymru 1 (SATC 1)

Safon Ansawdd Tai Cymru yw safon Llywodraeth Cymru ar gyfer ansawdd tai cymdeithasol, a gyflwynwyd gyntaf yn 2002.